YR YMOFYNYDD.

Rhif. 52.] EBRILL, 1863. [Ail Gyfres.

HANNER AWR GYDA'R BARDD O BANTYCELYN.

Llythyr II.

Ceisio ymofyn yr ydym pa fodd i gyfrif am boblogrwydd anarferol hymnau'r hên fardd yn ein gwlad. Ymddengys fod bagad o resymau i'w cymeryd o dan ystyriaeth. Yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd yn y papuryn o'r blaen ni ddylid colli golwg ar y peth canlynol :—

3. *Fod cymmaint o'r anianol* (sensuous) *yn yr hymnau ;* fod y fath apeliadau ynddynt at y teimladau a'r nwydau ; y cynnwysant gymmaint i foddio'r ffansi grefyddol. Mae y desgrifiadau o Adda a Christ, o'r pechadur yn ei gyflwr a'i dywydd, o ddydd y farn, o Aifft y byd hwn a'r Ganaan fry, ac o bethau eraill mor gyffrous fel nas gallant lai na thynu sylw a chynhyrfu y teimladau, yn enwedig eiddo crefyddwyr anllythyrenog. Mae yn un rheswm yn ddiau dros lwyddiant mawr a lledaeniad ëang Eglwys Rhufain, y cyflawnder o foddhad anianol sy ganddi i'w gynnyg. Medd ar fwy i'r llygad ac i'r glust nag un eglwys arall. Mae ei delwau yn llefaru wrth ddosparth lliosog iawn, yn fwy hyawdl nag y gallai yr epistol mwyaf ymresymiadol wneyd ; maent yn yspardyn mwy effeithiol i'r dychymmyg nag y byddai'r bregeth fwyaf sylweddol a draddodwyd erioed. Mae ei hapeliadau at ddosparth neillduol o gymhellyddion *(motives)* a berthynant i'r natur ddynol yn fwy deheuig a grymus nag eiddo un eglwys arall ; a gellid, mi debygwn, olrhain mewn rhan i'r un achos, yr afael gref sy gan yr hymnau hyn ar y werin ; i'r pictwrau bywiog a dynir gan y bardd ac a ddelir i fynu o flaen llygaid y dychymmyg. Nid ei fod yn arlunydd penigamp. Nid ei fod yn gelfydd, nac yn amcanu at fod. Brwsh mawr o gariad sy ganddo, ac nid rhyw ofalus iawn yw am drefniad y lliwiau : gad iddynt redeg i'w gilydd, er y rhaid dweyd iddo ddarparu yn ddigonol ar fod i liw coch y Gwaed i ymddangos y mwyaf tanbaid o'r cwbl. Mae yn feiddgar y tuhwnt i'r cyffredin ; nid oes na bod na sefyllfa na chynnyga ef wneyd iddi eistedd am ei phictwr. Mae y byd anweledig yn cael ei fapio drwyddo draw ganddo. Mae arfaeth fore a dydd barn a diwedd y byd i lawr ar ei ganfas. Yn rhyfeddodau nefoedd ac uffern teimla yn dra gartrefol. Cawn ef ar dro yn dymuno fel hyn :—

> Gwna fi'n gyfarwydd iawn o hyd, A'r llwybrau'r ochor draw i'r byd.

Trinia'r dirgeledigaethau fel plentyn ei deganau ; ymddifyra ynddynt. Addefa nad yw ei reswm yn ei adael yn llonydd bob amser, ond achwyna mai ychydig o help a dderbyn ganddo :—

> Chwilio ag ef ddyfnderoedd 'rwy', Ac eto ffaelu a myned trwy :
> Rhy faith yw'r gwirioneddau fry, I'w gwybod *ond eu credu sy.*

Tad yn y Mab, Mab yn y Tad, Ac yr un modd mae'r Yspryd rhad,
Y man bo un y lleill y sy, *O ryfedd fod ! can's Un yw tri.*

. . . . . .

Deonglwch hyn, ddysgedig rai, rhyfeddu mae'r cenhedloedd
P'odd gall'sai Mair ei gynnwys ef, a chynnwys nef y nefoedd.
Duw mawr, Creawdwr dwr a thir i gael ei wir genhedlu
Gan forwyn wnaethpwyd ganddo 'i hun fy enaid sy'n rhyfeddu.

Priod y drag'wyddol hanfod welai'n hongian ar y pren,
Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo 'n barod grymu lawr ei ben.

Ei *central figure* yw yr Iesu : ei Dduw mewn gwirionedd, fel y dywed :—

Fy Iesu yw fy Nuw, fy noddfa gadarn gref,
Ni fedd fy enaid gwan ddim arall tan y nef.

Yr unig berson y gellir ei garu trwy yr holl hymnau yw'r Iesu, ac y mae'n hoff o'i alw wrth yr enw anwyl hwn—Iesu ; llidiog a digofus, caled a chreulawn yw'r Tad, bron yn ddieithriad, a dofi gwŷn ei ddialedd yw gwaith yr Iachawdwr. Pan y mae'r tri pherson yn cael eu rhifo, wrth gwrs ymddengys yr Yspryd Glân ; ar brydiau eraill gellid casglu yn y cyffredin nad yw ond rhyw was bach i weini ar yr Iesu ac ar y Saint. Mae cythreuliaid, a dreigiau, a phob math o bryfed a bwystfilod i'w cael ar wasgar yma a thraw ; ond ar y cyfan byddai gan ddarllenydd ystyrgar a diragfarn yn llawn cystal bod yn un o'r cyfryw, yn debyg, â bod yn ddyn, a barnu wrth y cymeriad arswydus o ddu a roddir iddo yma :—

Pe agorai'r Iesu uffern goll, A rhoddi i'r *ellyllon oll*
Ryw Jubil faith heb boenau mwy, *byddai arna I ddiolch fel hwynthwy.*

Pechadur wyf erio'd o halogedig ryw :
Gwrth'nebwr fyna i fod yn erbyn gras fy Nuw.

Y gras a'r hedd a'r purdeb oll, Row'd i mi 'n Eden aeth ar goll ;
Ni ffeindia i bellder tra fwy I byw, Fy hen 'madawiad gynt â Duw.
'R creaduriaid mân nid aeth mor bell, Eu braint cadwasant lawer gwell.
Gyd yn eu lle 'n rhoi 'n Harglwydd glod, *O ddechreu'r byd heb bechu erio'd.*

Nid yw yn syndod cael y bardd yn cânu :—

Rhyfeddu'r wyf i'r coelbren dd'od, A'r nefoedd wèn i'm rhan erio'd.
O Arglwydd d'wed beth wnes i well Na rhai sy'n aros eto 'mhell ?
A ydyw'm beiau'n llai na hwy ? Yn hytrach amlach ynt a mwy.

Ac nid rhyfedd fod yn rhaid wrth ryw gynllun o'r fath â ganlyn er achub un mor ddrwg :—

Tair swydd yn angenrheidiol sy Cyn gallu'm dwyn i'r nefoedd fry.

. . . . . .

'Roedd rhaid fy *newis* gan fy Nhad, A Iesu *farw troswy'n rhad,*
A'r yspryd *i gymmwyso i gyd* Yr iechydwriaeth werthfawr ddrud.

Hawdd fyddai cael degau o bictwrau o ddyn yn debyg i'r canlynol :—

Mae mor bossibl i mi *glymu haul a daear fawr yn un*
Ag yw i'm *dderchafu 'nghalon i fynu attat Ti dy hun.*

Ac eto dywed bron a'r un anadl—

Mi ddes yma i'r anialwch, byd o newyn, byd o wae,
Heb un *achos*, heb un *neges, ond yn unig dy fwynhau.*

Mae hon yn un o'i hymnau a genir amlaf yn ein gwlad :—

Ni fuasai genyf obaith am ddim ond fflamiau syth,
Y pryf nad yw yn marw, a'r t'w'llwch dudew byth,

Oni buasai i'r hwn a hoeliwyd ar fynydd Calfari,
O ryw anfeidrol gariad i gofio am danaf fi.

'Rwy'n edrych arnaf f' hunan â rhyw gasineb mawr,
Mwy diddim, mwy disylwedd na phryfed mân y llawr.

Ond wed'yn—

Crist wyddai'm bai'n hir cyn bod byd, *Mai pechod gai fe ynwy' i gyd.*

Mae yn gryn demtasiwn i ddyfynu llawer o'r hen fardd: mae weithiau mor dda, weithiau mor anoddefol o wael, a phrydiau eraill dros ben mesur o ysmala. Ond y mae terfynau y papyrau hyn yn rhy gyfyngedig i wneyd dim yn rhagor na dwyn ambell i ddarn dan sylw a fo yn cyfiawnhau ein nodiadau ar yr hen fardd; a chyda golwg ar ei bictwrau cyffrous mae'n rhaid copio rhyw gwpl bach o'i ddesgrifiadau o ddyn. Diau genyf pe buasai rhywun heblaw cyd-greadur o ddyn wedi bod yn dad i'r desgrifiadau hyn, ac yn enwedig pe na buasai i fwyafrif crefyddwyr y wlad hon ddygwydd bod mewn hwyl i dderbyn y cwbl fel yn cydfyned a'u golygiadau duwinyddol, heb weled un achos o dramgwydd ynddynt, y cawsai digllonedd ofnadwy ei gynhyrfu ym mhob mynwes, ac y cytunasid yn lled ddible fod gan yr archgythraul ei hunan gryn law yn eu cyfansoddiad. Mae'r brwsh wedi ei drochi yn dda yn y parddu pan yr hitiodd ymaith y llinellau canlynol a'u cyffelyb:—

Er nad wyf fi ond anifel, aflan iawn er pan ces fyw,
Etto mwy na'm holl aflendid yw cyfiawnder maith fy Nuw.

Yn y domen ce'st fi yanwaith, yna eilwaith de'st i'm hol.

Cawn lawer o'r fath hymnau â hyn:—

Pechadur wyf o'r dua 'i liw O'r holl rai sy dan nefoedd Duw.

. . . . . .

'Rwy'n ëon, addefaf, arnat Naf, I gredu fi bechadur caf
Wel'd hyfryd wedd dy wynebpryd, '*Nol pechu'm einioes yn y byd.*

Arglwydd arwain trwy'r anialwch fi bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynof nerth na bywyd, fel yn gorwedd yn y bedd.
Gwneyd fy hunan heddyw'n euog, heno'n ceisio 'difarhau,
Ofn marw sy'n rheoli, eto'n ffaelu ufuddhau.

O fy anfodd, D'est a'm beiau tan fy nhraed.
Ti'm hachubaist, Pan 'rown inau'n myn'd i'r tân.
Y dyledswyddau goreu'u rhyw twyllodrus ynt a gwan.
Mi nis gallaf wneyd fy hunan ddyddiau meithion ronyn gwell
Pob egwyddor yn fy enaid beunydd sydd am fyn'd yn mhell.

Nid yw yn wastad yn y cywair diobaith hwn. Ar brydiau mae ei natur ddynol yn drech na "gras," a phryd hyny cawn ef yn synwyrol a melus. Mewn hymn ar "rym cariad" at Dduw neu at yr Iesu (nid yw un yn sicr byth pa un o'r ddau ydyw.)

Ni raid i mi guddio'th gariad fel cariadau gwag y byd,
Mi gyhoedda o flaen y werin dy fod wedi dwyn fy mryd;
Mae dy enw mawr mor werthfawr, ni chywilyddiaf 'hono mwy,
Mae dy gariad pur mor gryfed, anorchfygol yw ei glwy'.

Yr ydys yn dra chyfarwydd a hon:—

Marchog Iesu yn llwyddianus, gwisg dy gledd yn ngwasg dy glun, &c.

Mae ei ddesgrifiadau o'r ddaear hon yn gyfryw a'i harddangosant yn drigle dra chymhwys i'r fath bechaduriaid anaele ag yw pawb dynion, ïe, y goreu o honynt yn ol yr hen fardd.

Tlawd yw'r cwbl wi'n ei weled, *gwlad heb olau, gwlad heb wres,*
Gwlad heb degwch mewn creadur, fel bw'i'n myned ato'n nes;
Gwlad heb daa heb frawd heb gyfaill, gwlad rwi ynddi'n blino byw,
Mi af draw i'r gwledydd hyfryd at f' anwylyd hyfryd gwiw.

Ffarwel bob peth yn y byd, *Twyll a gwagedd oll i gyd.*

. . . . . .

Y melusder pena' gawn, *Gwenwyn du sydd ynddo'n llawn.*
Mae gelynion yma'n llechu, *wn i bryd daw llew i ma's,*
Ac y rhua fe arnai 'n greulon, bygwth llarpio'th ofnus was;
Eirth, llewpardiaid, seirff, gwiberod yn cyttuno'm lladd i'n un,
Nid oes dim a geidw f' enaid ond dy allu di dy hun.

Oni ellid casglu fod y Tad Anfeidrol yn fath o Pharaoh, neu waeth, oddiwrth a ganlyn ?

Y mae'r Aifft a'i th'wyllwch dudew wedi 'mlino i'n drwm erio'd,
Gwneyd priddfeini heb ddim cynwydd, gofid mwya' sydd yn bod.

Na tharo fi rw'i dan fy maich, Dw'i 'n abl dyodde' pwys dy fraich,
Duw ydwyt ti, 'dwyf fi ond dyn, Pa'm lleddi waith dy ddwylo'th hun ?

Eto mŷn y bardd garu'r bod creulawn hwn er ei fod yn diystyru ei weithredoedd.

Neb is nef ond ti dy hunan ddeil i fynu f' enaid gwan,
Rw'i 'n diystyru'r holl greadigaeth fel peth diddim tlawd a gwan.

A rhwng ei ddwyfron gwnaf fy nyth, oddiyno 'drycha'i ma's,
Ac mi rof *shalens* i bob peth a welodd daear las.

Gellid meddwl mai at y morfil a lyncodd Jonah y cyfeirir yma.

Tân dry'n ddwr, a dwr yn wenfflam, os d'ewyllys iddo bair,
Gwna i'r morfil mawr esgyrnog i lesmeirio wrth dy air.

Braidd y tybiwn y cenir y penill hwn bellach :—

Trwsiwn ein lampau, rhown ein sten yn llawn o olew hyd yr ên,*
Na chysgwn mwy ond 'drychwn draw, fe waedda'r Priodfab maes' law.

Mae yn naturiol i ni (fel yr hoffai y bardd wneyd) droi ein gwynebau tua'r byd nesaf gan nad oes ar y ddaear ond gwae a gofid o'r dechreu i'r diwedd. Am yr adgyfodiad dywed—

Pan gynta' codo'r seintiau 'u pen a gwel'd y nen yn goleuo,
Chwarddant a neidiant ar bob cam, 'n hiraethu am fyn'd ato.
Corff hardd a gawn, corff fel efe, all yn y ne' breswylio,
Ac oll o'r dda'r (nis gwn pa fodd) *i entrych nefoedd neidio.*

Rwi'n teimlo arna'i hiraeth a chwant wel'd mysgu f' holl deml o'i lle,
A hedeg yn union i bant, *fel 'deryn i ganol y ne,*
A neidio i mewn yno i blith Y dyrfa sy a'u gwisgoedd yn wyn,
A chanu i'm Harglwydd i byth, fu farw ar Galfari fryn.

Nid yw yn petruso olrhain yn lled fanol y dull a'r modd y dygir pethau yn mlaen ddydd y cyfrif :—

* Adgofia hwn ni o un o benillion y Dr. Watts. Methais gael gafael ynddo yn fy argraffiad fy hun o hymnau Watts, ond sicrha cyfaill i mi mai efe yw'r awdwr.

Uffern a'r nef ar hyn o bryd, A ymedy â'r eneidiau i gyd,
I gwrdd a'r cyrff oedd hyd yn awr Yn llechu yn y ddaear lawr.
Ni weliff etifeddion hedd Na llid na digter yn ei* wedd, *Yr Iesu.
Cariad a'u gwna hwy'n ewn i fynd At Frenhin Iesu fel eu ffrynd.

'Nol danfon ei elynion chwyth *I'r dwfn bair gael berwi byth,*
A dodi'r lloer, y sêr a'r byd Ar dân yn wenfflam oleu i gyd;
O orsedd barn cwyd Iesu'n awr Ynghyd a'i dorf aneirif fawr,
Angylion gyda saint mewn hedd A mewn i'r briodasol wledd.

But Samson when his hair were lost, Met the Philistines to his cost,
Shook his vain limbs with sad surprise, Made feeble fight and lost his eyes.

'N gelynion, er cymaint eu llid, yn lluoedd a deflir i'r llyn,
Fe'u rhwymir yn 'sgubau ynghyd, dechreuad llawenydd yw hyn.

Dychymygwch y cymal yna yn cael ei floeddio a'i repetio gan haid o'r etholedig hîl mewn cymanfa yng Nghymru, neu yn cael ei grio allan yn nghwrs y bregeth gan un o'r bechgyn hyny sy ddiail gyda'r hyn a eilw ysgrifenydd diweddar—"*the incommunicable snuffle!*"

At bob peth arall y mae'r bardd yn *broffwyd*, yn ystyr ddiweddar ac anwarantedig y gair o ragfynegydd pethau i ddyfod :—

Dydd sy'n dyfod, daw ar fyrder, gwelant hwy* fy Mrenin fry, *Ei elynion.
Cymylau'r nef yn gerbyd iddo, *'r haul a'r lloer yn bellen ddu.*

Tybiem na tharawodd na phab na chardinal gryfach melldith erioed na'r un ganlynol :—

Gad 'ynt fy nghlywed maes o law yr ochr draw yn canu,
A phawb i wel'd y myrdd dirif lawr tan y llif yn soddi;
O galw'r tywod mân ynghyd dywallt eu llid yn erbyn,
A soddi olwynion main eu grym *yr hwn sydd i'm yn elyn.*

Wele bictwr o ddedwyddwch y nef :—

Yn un ca'i yno weled Tri Yn NYNDOD CRIST fy Mhrynwr i,
Caf wel'd Creawdwr nef yn ddyn Yn gwisgo corff fel fi fy hun;
'Ddaw angeu byth roi imi glwy' Nac ofn marw 'mlino i mwy;
A mwy na hyn, mae'n wir ddilyth, *Ni thoi'r fi maes o'r nefoedd fyth.*

Nid ym yn sicr nad oes heresi yn yr uchod. O leiaf dyma'r tro cyntaf i ni weled y fath dyb yn cael ei myntumio, a bod y Tri Pherson i'w cael yn natur ddynol yr Iesu. Ond rhaid addef ar yr un pryd nas gall dim fod yn rhy ryfedd a gwrthun i'w haeru am y Tri Pherson hwn. Mae'r fath hanes i'r Tri hyn nas gellir dwyn ail iddi, yn debyg, o chwilio hanes pob tyb dduwinyddol o'r dechreu hyd yr awr hon. A thrueni na chai yr hen Williams draethu ei lên ar y mater, a dodi'r Tri os myn yn Nyndod yr Iesu.

Mae ein terfynau yn gwasgu arnom, a diweddwn y tro hyn gydag un pictwr yn rhagor o'r Nef :—

Mi gaf fwyta rhyfeddodau sydd yn natur Duw ei hun,
Ac ymborthi ar ddysgleirdeb Crewr nef yn natur dyn,
Ca'i yno ragor, Mewn un awr nag yma byth.

Gan obeithio eto ddychwelyd i dreulio haner awr neu ragor gyda'r "per ganiedydd" y gorphwyswn.

SUETONIUS.

FFYDD GADWEDIGOL.

(Parhad o Rhif. Mawrth, tudal. 59.)

Y GEIRIAU nesaf a wnawn sylw o honynt yw'r canlynol: "Nid yw 'ffydd gadwedigol' ddim yn gyfyngedig i sect, nac enwad, nac oes; ond y mae yn perthyn iddynt oll—i bawb fel eu gilydd." Mae rhyw beth estronol yn seinio yn y clust—rhyw beth annghynefin i'r synwyr a'r dyall yn rhediad y geiriau—*Ffydd Gadwedigol* yn perthyn iddynt oll—i bob sect, ac enwad, ac oes, "*i bawb fel eu gilydd!*" Mae amrywiol sectau, amrywiol enwadau, yn amrywio i raddau anfesurol y naill oddiwrth y llall. A ydyw Ffydd gadwedigol yn perthyn iddynt i gyd? A ydyw yn perthyn i'r cyfeiliornad yn gystal ag i'r gwirionedd—i'r tywyllwch yn gystal ag i'r goleuni? *Nad yw! Nad yw!* Ffydd yn Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist yw'r Ffydd gadwedigol. I wirioneddau'r Iesu y mae hi yn perthyn, ac nid i ddim arall. Eiddo Crist, ac eiddo Crist yn unig, yw "Gair y Ffydd, yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu." "Ac nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith dynion trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig." Dyma "Awdwr a Pherffeithydd ein Ffydd ni;" a hon, a hon yn unig yw'r Ffydd gadwedigol: "os cyffesi (*anwiredd* yw—a dim ond *anwiredd pur*—yr haeriad, nad yw ffydd gadwedigol yn perthyn i gyffes) os *cyffesi* â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi Ef o feirw, *cadwedig* fyddi." Dyma *gredo* a thyma *gyffes* y ffydd gadwedigol. Heb y gredo hon ac heb y gyffes hon, yn y galon—yn goleuo yr holl ddyall—yn puro'r holl feddwl—yn adnewyddu yr holl ddyn, nis gall neb a grëodd Duw fod yn feddianol ar yr hyn a elwir yn y Testament Newydd yn Ffydd gadwedigol.

Mae ffydd gadwedigol, ynte, yn perthyn yn gyfangwbl i *Grist* a *Christnogrwydd.* Cyflawn ymddiried yn ei genadwri nefol—cenadwri oddiwrth Dad at ei blant, er dadguddio iddynt ei fwriadau cariadlawn tuag atynt am dragwyddoldeb—*ffydd* yn yr addewidion a'r dysgwyliadau hyfrydlawn hyn, yn cyfodi oddiar y dyall, yr hwn sydd gwedi cael ei *lwyr foddloni* o ran eu gwirionedd—yw'r *ffydd gadwedigol.* Mae'n cadw rhag pob ammheuon a phetrusder wrth wynebu angeu a'r bedd—mae'n cadw rhag holl gamlyniadau tywyllwch, anwybodaeth, a phechod—pob peth a all *ddrygu* neu *niweidio* dyn! "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." *Unig reges* yr Iesu yn y byd yma oedd amlygu, hyd eithaf ei alluoedd, y "pethau ddarparodd Duw i'w blant"—"yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol—i etifeddiaeth anllygredig a dihalogedig a diddiflanedig."

Prif ddyledswydd dyn—dyledswydd yr holl ddyledswyddau i gyd—yw gwrando ar, a derbyn y *gennadwri* gyda phob parodrwydd. Mae'n eithaf *coeladwy.* Mae'r Tad Anfeidrol yn amlwg yn y *Cennad* ac yn y *gennadwri.* Mae *seal* ei allu ar y cyfan—gallu y Tad yn gydfynedol â'r Iesu tra y bu wrth ei waith—hollalluogrwydd ar bob cam yn tystio dwyfoldeb ei anfoniad—gwirionedd ei addewidion—"ni ddaethum o honof fy hun—y Tad a'm hanfonodd i,"—clywch a gwrandewch—mae fy neges at bawb—credwch fy nghenadwri—ble mae eich rheswm a'ch dyall? Mae gennyf fodd i'w boddloni hwy. Paham na chredwch fi? ac os na chredwch fi, credwch y *gweithredoedd*—chwi wyddoch nas gallasai neb ond y *Tad* i gyflawni y rhai hyny.

Credwch ! Credwch ! fel y byddoch gadwedig ! Cofiwch nas "gellir dyfod at y Tad ond trwof fi;" ac heb ddyfod at y Tad nis gellir bod yn gadwedig. Fe welir yn amlwg, ynte, beth yw ffydd gadwedigol, ac nad yw yn perthyn i neb, ond i *Grist* a'i *wirioneddau.*

Ni wnaf ddim ond adrodd y gwrthuni nesaf. Ffydd gadwedigol "ydyw'r egwyddor yn enaid dyn sydd yn gwneud crefydd yn bosibl iddo." Mae sylwad "Carwr Goleuni," yn y Rhifyn diweddaf, mor fyr ac mor gymwys, fel na wnaf ddim ond ei ail adrodd ef. "A feddyliwyd wrth hyn fod dyn yn feddianol ar ffydd gadwedigol cyn ei fod yn feddianol ar grefydd, ac os felly, pa les a wna crefydd iddo ?"

Trueni mawr i fod dyn ieuanc sydd yn feddiannol ar alluoedd da, a gwybodaeth helaeth, yn gadael ei hunan i frawlan y fath ffoledd a'r hyn a ganlyn mewn cymydogaeth o ddynion rhesymol,—"Ffydd ydyw yn cael ei phorthi o fôr ysprydolrwydd y Tad ei hunan."!! Geiriau heb *fymryn* o synwyr yn perthyn iddynt ! Dim ond swn i dwyllo yr anneallus ! Ac etto, "Nid ffydd gadwedigol yw ffydd . . . mewn pethau hanesyddol." Beth yw Crist, beth yw Cristnogrwydd, beth yw'r Testament Newydd ei hunan ond pethau hanesyddol ?" I hanesyddiaeth yr ydym yn ddyledus am Grist, am ei fywyd, am ei wyrthiau, am yr *hyn oll a wyddom am dano !* Heb hanesyddiaeth heb Grist, a'r hyn oll sydd yn perthyn iddo ! Os nad oes gennym ffydd yn *hanes* Crist, nis *gall* fod gennym ffydd yng *Nghrist;* oblegid nis gwyddom ddim am Grist, ond trwy hanesyddiaeth ! Efallai nad yw Mr. Thomas yn gwybod mai hon yw'r ffordd y mae gelynion Cristnogrwydd ym mhob oes, gwedi ei dewis er ceisio gwanhau sylfeinau y grefydd Gristnogol—sef iselu tystiolaeth a phrofion ei hanesyddiaeth.

Mae y modd y llefarir am y flydd yma yn y Testament Newydd yn dangos yn eglur iawn ei nhatur a'i hansawdd; yn gystal a'r modd y ceir hi, (Rhuf. x. 17), "Am hynny ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw." Trwy'r *clust* oedd cael y ffydd hon yn nyddiau yr Apostolion. "Gair Duw" yn cael ei bregethu—rhai yn gwrando yn ystyriol, ac yn credu, ac fel hyn yr oedd ffydd yn dyfod "trwy glywed." *Clywed, deall, credu.* Dyma'r *processes* trwy y rhai y mae cael y ffydd gadwedigol. Mae y cyfan yn hollol naturiol, rhesymol, a chyson â phrofiad a rheswm dyn a phob dyn. Nid rhywbeth gwedi ei blanu gan y Creawdwr yn yr enaid—nid rhywbeth yn cael ei *blygu* a'i *ddadblygu* mewn dyn—fel rholyn gwlanen yn y farchnad, gan yr hen wraig—yw ffydd gadwedigol. Nid oes na *phlygiad* na dadblygiad yn perthyn i enaid, calon, synwyr, neu ddyall dyn ! !

Drachefn, mae gennym ddyffiniad penodol yn y Testament Newydd, o'r hyn ydyw *ffydd*, fel nad oes gennym le i gamsynied, os na fyddwn yn ynfyd. (Heb. xi. 1.) "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Sail *gobaith* yw ffydd, a *sicrwydd* yr hyn nis gwelir. *Sicrwydd* o holl addewidion yr Iesu yw ffydd—cyflawn ymddiried yn yr hyn oll a ddadguddiodd y Tad trwyddo i bob synwyr a dyall. Fe fyddai yn ddoeth mewn dynion ieuainc i fod yn bwyllog iawn ac yn ofalus neillduol cyn mabwysiadu syniadau nad oes ganddynt ddim ond dychymygion gwyllt a ffol afresymoldeb i'w cymeradwyo ! Nis gall dim fod yn ffolach na son am fod y Creawdwr yn "planu rhywbeth yn yr enaid," &c. Nid oes un math o ysgrifenwyr yn arferu y fath iaith nes y byddo holl derfyn-gylch eu gwybodaeth a'u synwyr gwedi ei lwyr dywyllu

Yn yr amgylchiad hwn nid oes dim i wneuthur ond anturio i faes annherfynol tywyllwch ac anwybodaeth!

Mae'n gysurus iawn meddwl, yn ngwyneb haeriadau ffol o'r fath hyn, i fod darllenydd yr YMOFYNYDD yn un ag sydd yn arferol o ddefnyddio ei synwyr a'i ddyall, cyn y bydd iddo fabwysiadu un math o syniadau.

D. LLOYD.

PA BETH YW FFYDD GADWEDIGOL?

RHAI SYLWADAU AR YSGRIF DR. LLOYD YN Y RHIF. DIWEDDAF, TUD. 58-9.

DIAU ei bod yn dda gan lawer heblaw fy hun i weled y Dr. Lloyd yn cael ei dueddi i ysgrifenu ar bwnc mor bwysig â Ffydd Gadwedigol. Nid yw eto, dybygwn, ond prin dechreu, a gellir dysgwyl ysgrif ar ol ysgrif oddiwrtho. Ni fuaswn yn dymuno cenad i wneyd unrhyw nodiadau ar yr hyn sydd eisioes wedi ymddangos cyn fod y gweddill gerbron, oni bai fod cyfiawnder â mi fy hun yn gofyn hyny, trwy ei fod wedi gwneyd cyfeiriad personol ataf. Pe na buasai ond yn unig anghyttundeb barn rhyngom, gwell fuasai genyf aros nes iddo ef orphen, ond nid hyny yw. Nis gwn eto pa mor bell y gall fod ein barnau yn gwahaniaethu; daw hyny yn fwy i'r golwg yn y dyfodol. Yr hyn sydd genyf i'w wneyd yn awr yw cywiro y Dr. gyda golwg ar gamgymeriad nid ammhwysig y mae wedi syrthio iddo.

Mae haner ysgrif y Dr. yn troi ar frawddeg a briodolir i mi yn adroddiad y gynnadledd ddiweddar yn Aberdar. Ceir hi yn Rhif. Ion. tud. 23: "Nid oes dim rhwymau wedi eu gosod arnom i gadw at y Testament Newydd." Mae yn iawn i mi ddweyd cyn myned ym mhellach nad yw yr adroddiad o'm sylwadau yn llawn na pherffaith, (nid yw y cofnodydd yn proffesu hyny, gwel tud. 24). Mae gadael allan frawddeg yma ac acw fel ag i dori'r cysylltiad, neu hyd yn oed arfer geiriau gwahanol (heb un bwriad) yn gosod un yn fwy agored i feirniadaeth darllenwyr craffus.* Nid oedd y Dr. Lloyd yn bresenol, (ac yr oedd yn flin gan bawb o honom ar y pryd, gan mai afiechyd oedd yr achos,) fel nad oedd ganddo ond yr adroddiad i fyned wrtho. Hyn yn unig ellir ei ddweyd, y dylasai o gymmaint â hyny fod yn fwy gofalus i ddeall yn gywir yr hyn y ceisid ei osod allan. Gallaswn, a dichon y dylaswn ysgrifenu gair ar ymddangosiad yr adroddiad, ond gan feddwl nad oedd galwad neillduol am hyny ni wnaethum.

Cymera y Dr. y frawddeg grybwylledig fel traethiad ar fy nhu nad oedd arnaf fi na'm brodyr un rhwymau i dalu sylw i'r T. N., ond y gallasem ei adael o'r neilldu, neu wneyd hebddo fel llyfr heb fod o un awdurdod yn y byd. Mi a ddymunaf genad i nodi tri pheth a ddylent, yr wyf yn meddwl, argyhoeddi y Dr. a phob dyn rhesymol nad hyny a amcanwn ei ddweyd.

1. Yr oedd yn bresenol dyrfa fawr, ac nid ychydig o weinidogion parchus a dysgedig. Yn awr yr wyf yn gofyn: A yw yn debyg, os deallid fi gan y rhai oeddynt yn wyddfodol fel yn diarddel neu yn diraddio y T. N., a hyny mewn cwrdd lle'r oedd cenad i bawb lefaru—a yw yn debyg na fuasai sylw yn cael ei wneyd o'r peth gan rywun? A oedd mor lleied o barch i'r T. N. mewn cynulleidfa mor lliosog, yn cael ei gwneyd i fynu gan mwyaf o Undodiaid, ac mewn rhan fawr gan weinidogion Undodaidd, fel nad oedd gan

* Yr wyf yn gwir ddymuno na fo i'r sylw hwn yn y mesur lleiaf beri fod i gynllun mor ganmoladwy ag sy newydd gael ei ddechreu fyned o ffafr yng ngolwg neb. Na chadwer y goleuni dan lestr. Os bydd camsyniadau, rhaid ceisio eu cywiro.

neb air i ddweyd drosto? O'r rhai ag oedd yn wyddfodol yn y cyfarfod, ni ynganodd un air ar y pryd, nac ychwaith wrthyf fi yn bersonol ar ol hyny, fy mod wedi siarad yn ammharchus am y T. N. Y casgliad, dybygwn i, y byddai yn naturiol ei dynu oddiwrth hyn fyddai na ddeallodd neb ag oedd yn bresenol fi fel yn dweyd yr hyn y tybia'r Dr. i mi ddweyd. Yr oedd gan y rhai oeddynt yn bresenol well cyfleusdra i farnu na neb arall. Os deallasant fi fel yn dweyd yr hyn a briodolir i mi, pa beth a feddylir am eu parch i'r T. N., os gadawent ymosodiad arno i basio yn ddigerydd; a pha beth a feddylir am eu teimladau Cristnogol os mai yn fy nghefn ac nid yn fy ngwyneb y tybient hi yn gymhwys i lefaru.

2. Nid ymddengys i mi fod y Dr. ei hun yn credu fy mod am osod y T.N. o'r neilldu, oblegyd cyn diwedd ei ysgrif cyfeiria fi at ran o hono (Matthew xvii. 20,) er ceisio fy nwyn i'r goleu am natur Ffydd Gadwedigol. Ai tebyg y buasai yn dyfynu o'r T.N. os yn credu nad oedd genyf barch yn y byd i'r llyfr? A yw hon yn rhyw ffordd newydd i argyhoeddi dynion?

3. Yr wyf yn dal fod genyf fi fy hun lais yn y mater, ac nad oes neb a all wybod fy meddwl yn gystal a mi fy hun. Pe wedi amcanu llefaru yn ddiraddiol am y T.N. gwnaethwn hyny yn ddigon eglur, ac ni chynnygiaswn dyny fy ngeiriau yn ol. Yr hyn a fwriadwn ei ddweyd oedd hyn: mae'r geiriau yn gywir a ddefnyddiais wedi dianc o'm cof, ond yr wyf mor sicr ag o ddim a ddywedais erioed, na ddywedais yr hyn a briodolir i mi; ond nad beth am hyny, a ganlyn oedd y peth a fwriadwn ei ddweyd: nad oedd rhwymau wedi eu gosod arnom ni a fuasem yn llefaru, gan gynnygydd y pwnc, i gyfyngu ein hunain i olrheiniad o ystyr y gair Ffydd yn y gwahanol fanau, ac yn y cysylltiadau amrywiol y ceir ef ynddynt yn y T. N.; mai nid nodiadau testunol *(textual remarks)* a ddysgwylid oddiwrthym, yn gymmaint ag ymgais i drin yr egwyddor neu'r gwirionedd a gynnwysir yn yr ymadrodd Ffydd Gadwedigol. Dywedais ar yr un pryd y gallasai fod rhai o fy mrodyr wedi parottoi i lefaru ar y pwnc yn y dull hwnw, ond mai dull arall a fuaswn i yn ei gymeryd. Dyna oedd hyd a lled y cyfan a ddywedais i am y T. N. yn y cwrdd.

Ond i ddarfod â hyn, ac y mae yn wir ddrwg genyf gymeryd i fynu ddalenau yr Ymofynydd gyda phethau mor fychain; af yn mlaen i sylwi ar eiriau y Dr. pan ddywed: "Mae'r geiriau Ffydd Gadwedigol yn cael eu cyfyngu i'r dadguddiad dwyfol, ac yn perthyn yn neillduol i'r athrawiaeth Gristnogol. Ni arferir y fath eiriau mewn cysylltiad ag un philosophyddiaeth ym mhlith dysgedigion y byd. Mae'r geiriau ynte i gael eu hystyried megys yn perthyn i'r grefydd Gristnogol yn unig, ac nis gellir eu hesponio yn iawn nac yn deg ond trwy iaith y Testament Newydd." Yn awr nid wyf yn myned i wadu'r gosodiadau uchod. Byddai yn rhyfyg o'r mwyaf ynof i'w gwadu, yn gymmaint ag nad wyf yn proffesu gwybod pa eiriau a arferir *ym mhob rhyw gyfundraeth philosophyddol o eiddo dysgedigion y byd.* Hyd yr wyf fi wedi darllen, nid wyf wedi eu cyfarfod; hwy allant fod; ond nid wyf eto wedi eu cwrdd ond yn y T. N.—nid yw y geiriau Ffydd Gadwedigol yno chwaith, ond geiriau cyfystyr a hwy. Yma gan hyny ni raid fod unrhyw anghyd-darawiad rhyngom, ynghylch yr arfer o'r geiriau. Ond y mae i'r geiriau ystyr, ac ynghylch yr ystyr y gweddai i ni, mi dybygwn, fod yn awyddus ac ymofyngar yn fwy nag am y geiriau eu hunain. Ymddengys i mi nad oes destun ymchwiliad mwy priodol na hyn. A oes dim geiriau o gyffelyb ystyr a Ffydd Gadwedigol, neu yn cyfateb iddynt

i'w cael yn un lle arall? Neu a yw mo'r hyn a olygir wrth Ffydd Gadwedigol i'w gwrdd ym *mhob* cyfundraeth grefyddol ag y mae dyn wedi bod yn ceisio drwyddi i ateb cwestiynau pwysig ei berthynas a'i Greawdwr a'r dyledswyddau a godant o'r berthynas hono? Os nad gwatwar ymchwiliadau dwysaf ei blant am dano a wnai'n Tad hyd ddyfodiad yr Iesu, a thywyniad y goleuni dysgleiriach yn ei addysg ef, nis gallaf fi lai na chael fy ngorfodi i gredu y gwyddai'r byd ryw gymmaint o'r blaen am yr hyn a olygir wrth Ffydd Gadwedigol. Yr wyf yn credu yng ngoleuni dysgleiriach Cristnogaeth; ond nis gallaf weled nad oes wedi bod yn y byd ar bob amser ac ym mhob gwlad, rywbeth a gyfettyb i'r meddylddrych o Ffydd Gadwedigol, serch nad oedd—a chaniatau hyn i'n gwrthwynebydd—y cyfryw eiriau yn cael eu harfer i'w dynodi. Os mai ynghylch geiriau y mae'r ddadl i fod gwell fyddai gennyf dewi ar hyn. Ond nid wyf yn credu y caniata fy ngwrthwynebydd iddi fod yn ddim ond hyny.

Mewn trefn i daflu rhyw gymmaint o eglurdeb ar y dull a ddewisais wrth siarad ar y pwnc, dymunaf ddweyd fy mod yn dal y dylid edrych ar bob traethiad neillduol yng ngoleuni yr hyn sy gyffredinol ac eanged â dynolryw. Yr wyf o'r farn—nid wyf yn y fan hon yn myned i nodi fy rhesymau, gan mai fy amcan uniongyrchol yn awr yw symud cam-argraffiadau a dangos pa dir a gymeraf—nad peth newydd yn y byd oddiar y cyfnod Cristnogol yw Ffydd Gadwedigol, ei bod yn y byd o'r blaen, a'i bod heddyw lle nad yw enw'r Iesu wedi cyrhaedd hyd yn hyn. Nid digon, dymunaf awgrymu, yw codi math o *dechnical objection* neu groesddadl mewn geiriau yn unig, trwy honi nad oedd Ffydd yng Nghrist, ac nas gallasai fod, cyn i Grist ymddangos, ac nad yw y Ffydd hon yn awr ond lle mae ei enw yn adnabyddus. Ni wad neb o hyn. Ond y peth i'w ystyried yw: Ai Ffydd yn canoli yng Nghrist neu yn diweddu gyda Christ yw y Ffydd y sonir cymmaint am dani? Yn ol y goleuni sy genyf fi, arwain y byd at y Tad yw amcan yr Iesu; dangos y Tad iddynt; nid cadw dynion gydag ef ei hun; nid peri fod eu gwybodaeth a'u hymddiried yn darfod ac yn canoli ynddo ef. Y Tad cyffredinol oedd y gwrthrych a eglurai ef, a'r hwn a anogai ef ddynion i'w adnabod a gorphwys eu gobaith arno. Yr wyf finau yn gofyn a oedd *dim* i arwain y byd at y Tad ac i'w tywys hwy i ymorphwysiad arno cyn ymddangos o'r Iesu? A oedd dim Ffydd Gadwedigol yn y byd cyn yr Iesu, ac oni cheir hi yn awr mewn gwledydd nad ydynt hyd yn hyn wedi eu bendithio a'r cyhoeddiad o'i newyddion da? "Nid oedd, ac nid oes, gwybodaeth mor gywir, mor fanol, mor oruchel am y Tad," medd rhywun. Pwy sydd yn gwadu hyn? Ond y cwestiwn yw a oedd ac a oes *dim* adnabyddiaeth o'r Tad, adnabyddiaeth yn *cadw* mor bell ag y mae yn myned? Yr wyf fi yn dal fod; traethed fy ngwrthwynebydd ei farn ef, ac yna byddwn yn gwybod lle y safwn.

Nid oes genyf ond gair neu ddau cyn terfynu'r sylwadau hyn. Cyfeiria Dr. Lloyd fi at Matthew xvii. 20, er gwrthbrofi gosodiad o'm heiddo ag sydd wedi ei eirio fel hyn yn yr adroddiad. Peth ydyw (Ff. G.) y mae'r Creawdwr wedi ei osod fel hedyn mwstard ym mhob dyn. Ar hyn sylwa: "Mae ychydig o gamsynied yma yn rhyw le. Fe anghofiwyd gosod yr hedyn hwn *ym mhob dyn.*" Yna dyfyna'r adnod uchod. Fel un peth teilwng o sylw, ymddengys yma y cred y Dr. nad wyf yn llwyr ymwrthod a'r T. N. Ond i fyned heibio hyn, gadewch i ni weled a yw mo'r adnod a ddyg ym mlaen i fy ngwrthbrofi i yn profi braidd ragor nag a garai'r Dr.?

Ym mhwy "yr anghofiwyd gosod yr hedyn hwn?" Nid yn yr Hottentot, nid yn un o'r bobl cyn y diluw, nid yn yr Iuddewon a erlidient yr Iesu. Nage, ond yn nysgyblion, yn *apostolion* yr Iesu eu hunain. Hwynthwy oedd yr Iesu yn eu hanerch yma; nid ei "wrandawyr" fel y dywed fy ngwrthwynebydd. Ac anercha hwynt yn yr iaith hon yn fuan ar ol i Pedr wneyd y gyffes bendant hono wrtho: "Ti yw Crist, Mab y Duw byw;" a bron yn uniongyrchol (os gellir ymddiried i drefn yr hanes fel yn amseryddol) ar ol i dri o honynt fod yn llygaid-dystion o'i wedd-newidiad. Os mai Ffydd Gadwedigol yw y Ffydd y sonir am dani yma, ac os mai meddwl yr Iesu oedd, nad oedd gan y rhai a anerchai ddim o'r gronyn lleiaf o Ffydd Gadwedigol, yna nid oedd gan Apostolion yr Iesu eu hunain *ddim* Ffydd Gadwedigol y pryd hwn. Buasai braidd yn gyfleus i mi yma fenthycca y dwsin a rhagor o ryfeddnodau â pha rai y mae'r Dr. wedi britho ei ysgrif fer; gan na ddywedwyd hyd yn oed yn y ganrif ryfedd hon, lawer o bethau rhyfeddach nag a fantumia'r Dr. ar bwys yr adnod uchod. Ym mhellach, gan yr ymddengys i wneyd dipyn yn ddifyr ar draul y geiriau "hedyn mwstard," fel pe yn eu cymeryd yn llythyrenol ac nid yn gymhariaethol, paham na roisai ddiwedd yr adnod i ni er mwyn cysondeb, gan ddweyd yn ddigel pe buasai ganddynt gymmaint a gronyn o had mwstard o Ffydd y gallasent yn llythyrenol beri symud y mynydd o'i le? Os myned yn llythyrenol, gweled fy ngwrthwynebydd yn dda i fyned yn llythyrenol i'r pen.

Mae yn dda genyf yr addefa'r Dr. nad athrawiaeth newydd fy un i. Cadarnhad i mi yw ei dystiolaeth fod y dyb a goleddaf yn hen dyb yn yr ardal hon, a bod gwragedd duwiol wedi bod yn ei dal yn yr amser gynt. O'm rhan fy hun teimlaf yn hyderus y parha ar ol i'r ddadl hon gael ei hanghofio.

Yn ofnus fy mod eisioes wedi bod yn rhy faith, terfynaf am y waith hon. WILLIAM THOMAS.

FFYDD GADWEDIGOL.

At "Carwr Goleuni." Gwel Rhif. diweddaf, tud. 69.

SYR,—Mae yn ddrwg genyf fod y sylwadau o'm heiddo y cyfeiriwch attynt mor dywyll fel nad ydych chwi na'ch cyfeillion yn alluog i wneyd dim o honynt. Nid wyf yn myned i feio dim arnoch; gwell genyf gymeryd y bai fy hun; a chan mai fy nymuniad i yw rhoi goleuni a'ch bod chwithau yn galw eich hun yn "Garwr Goleuni," yr wyf yn barod i gydsynio a'ch cais mor bell ag y gallaf. Dywedais yn y gynnadledd: "Po fwyaf wyf yn feddwl am Ffydd Gadwedigol mwyaf eglur yr ymddengys i mi ei bod yn rhywbeth nad yw yn gyfyngedig i na sect, nac enwad, nac eglwys, nac oes na chenedl yn yr holl fyd, ond yn perthyn yn gyffredin iddynt, yn eiddo cyffredin iddynt oll fel eu gilydd; ei bod yr hyn a orwedd wrth wraidd pob mudiad a chyffroad crefyddol a fu yn y byd erioed; *ei bod mewn gair yr egwyddor hono yn enaid dyn ag a wna grefydd yn bossibl iddo.* Nid wyf ond wedi rhoddi yn gyflawn y frawddeg o'r hon nid yw y rhan mewn llythyrenau Italaidd ond y diwedd. Yr ydych yn gofyn a feddyliaf fi wrth hyn fod dyn yn feddiannol ar Ffydd Gadwedigol cyn ei fod yn feddiannol ar grefydd, ac os felly pa les a wna crefydd iddo o gwbl?

Yr wyf yn atteb mai fy ngolwg yw, y rhaid fod gan ddyn Ffydd Gadwedigol

cyn bod ganddo grefydd, a chynnygaf ddangos ar fyr eiriau pa fodd y caf fy arwain i'r cyfryw gasgliad. Os yw dyn yn fod crefyddol, fel y credaf fi, y mae rhywbeth yn ei natur yn ei gymhwyso i hyn. Ni chwyd dim yn uwch na'i natur, mwy nag y cwyd y dwr yn uwch na'i darddle. Ni soniwn am grefyddoldeb y creaduriaid islaw i ni; a hyny am y rheswm nad yw eu natur, neu y cyfansoddiad a dderbyniasant oddiwrth eu Crëwr, yn eu haddasu ar gyfer hyn. Ond cydnabyddir yn gyffredin fod dyn yn fod crefyddol. A phaham y mae? Pa beth yw sylfaen ei grefyddoldeb? Pa beth a rydd y gallu a'r cymhwysder i hyn iddo? Yn ol fel yr ymddengys i mi, dim amgen na'i fod wedi ei wneyd yn gyfryw fel ag y mae gosod ei ymddiried mewn Bod Goruchaf a rhoddi ymbwys ei obaith arno, yn beth naturiol, rhwydd ac anocheladwy iddo. Y cyfryw ymddiried yn Nuw a alwaf fi yn Ffydd. Mae yn cynnwys crediniaeth ynddo, ond rhagor hefyd. Y fath agwedd meddwl yw ag eiddo'r plentyn at ei dad. Mae gan y plentyn grediniaeth yn ereill; cred eu bod, a'u bod fel hyn neu fel arall; ond y mae ganddo Ffydd, hyder, ymddiried yn ei dad, a pharch a chariad ato. Cyffelyb yw agwedd meddwl dyn at Dduw pan ddywedwn fod ganddo Ffydd. Yn awr y Ffydd hon sy'n gwneyd crefydd yn bossibl iddo, neu sydd yn sail i'r amlygiadau hyny yn y fuchedd a'r ymddygiad y rhai a gydnabyddir genym fel gweithrediadau crefyddol. Os mynwch, y Ffydd hon, ag arfer ymadrodd o eiddo rhai o'r hen ddduwinyddion, yw bywyd Duw yn enaid dyn; a chrefydd fel yr arferaf fi y gair yma yw y bywyd hwn yn amlygu ei hun, ac yn tori allan yn ol graddau y nerth a'r egni a'r prydferthwch a berthyn iddo. Fel hyn nid yw Ffydd Gadwedigol yn gwneyd crefydd yn afreidiol; yn hytrach amod a sylfaen crefydd yw; y ffynhonell a bortha ei ffrydiau. Ffydd Gadwedigol yn gweithio ei hun allan, yn mynu gwneyd dangosiad o honi ei hun yw crefydd. Yn ol mesur angerddoldeb a phurdeb y Ffydd Gadwedigol o fewn y bydd nerth a dymunoldeb y bywyd crefyddol fel y daw o dan sylw'r byd. Cydrediad a chyfattebiad y gallu mewnol i'r amlygiad allanol o hono, heb drais yn cael ei wneyd â'r naill na'r llall mewn dim a ddyry i bob dyn gymeriad moesol, cyson a theilwng.

Gyda golwg ar ail ofyniad C.G., gyda phob parch iddo, gorfodir fi i ddweyd ei fod yn rhy dywyll i mi gynnyg ei atteb heb ryw eglurhad pellach arno. Yn 1af, nis gwelaf pa gyssylltiad sydd rhwng ei ofyniad a'r frawddeg o'm heiddo a ddyfyna fel sail iddo: "Nad Ffydd Gadwedigol yw Ffydd mewn cred, &c." Yn 2il, a chymeryd y gofyniad ei hun fel y mae wedi ei roi: "A all dyn sydd yn gwrthod Cristnogaeth wedi iddo gael cynnyg arni [a oes y fath beth a gwrthod dim *cyn* cael cynnyg arno?] fod yn feddiannol ar Ffydd Gadwedigol; ac os y gall paham y dywed Crist, fod yr hwn nad yw yn credu ynddo ef wedi ei ddamnio eisioes, oblegyd na chredodd yn enw uniganedig Fab Duw?" a chymeryd y gofyniad ar ei ben ei hun, heb olygu unrhyw gyssylltiad rhyngddo a'm geiriau i, cyn fyth y gallaf ei atteb; rhaid i C. G. ddweyd wrthyf pa beth a ddealla wrth "wrthod Cristnogaeth." Mae yn ymadrodd hollol ammhenodol *(indefinite)*. Fel y mae gwaetha'r modd y mae Cristnogion wedi bod yn rhy barod bob amser i honni i fod pob dyn a phob plaid na dderbynio eu *deongliad neilldnol hwy* o Gristnogaeth yn ei "gwrthod." Gwed y Pabyddion hyn am y Protestaniaid, a dannoda'r olaf yr un peth i'r blaenaf. Ceir Trindodiaid a haerant fod yr Undodiaid yn gwrthod Cristnogaeth, ac Undodiaid a haerant yr un peth am y Trindodiaid. Yn Eglwys Loegr y dydd hwn y mae gwahanol bleidiau yn cyhuddo

eu gilydd o wrthod Cristnogaeth. Mae anghredu y cenedliad gwyrthiol, y meddiant gan ysbrydion aflan, yr awdurdod dros dderbyn rhyw lyfr neu adnod neillduol o'r Testament Newydd; mae gwrthod rhyw un wyrth neu yr holl wyrthiau a gofnodir yn y Testament Newydd a mil o bethau eraill, ar wahanol amserau, wedi peri fod y cyhuddiad ofnadwy hwn "o wrthod Cristnogaeth" yn cael ei wneyd yn erbyn rhywrai. Rhodded C. G. ei ddeongliad o Gristnogaeth, ac yna cymeraf ei ofyniad o dan sylw. Ac os gwel yn dda doded ei enw priodol wrth ei ysgrif, fel y gallom wybod deongliad pwy fydd. Nid wyf yn ei ystyried yn ormod i ni ddysgwyl ar law "Carwr Goleuni" i beidio a'n cadw yn y tywyllwch am hyn.

Yn ddiffuant yr eiddoch, WILLIAM THOMAS.

YR IESU—NID CREDOAU DYNOL—ARWEINIA I'R GWIRIONEDD.

YMDDIDDAN RHWNG EDWARD A WILLIAM.—GAN Y PARCH. E. KELL.

YR oedd William wedi agor gwiced yr ardd, ac yn sefyll yn gwbl heb gael ei weled, gan daer edrych ar ei gyfaill Edward gyda dyddordeb anghyffredin. Bore dydd Sul ydoedd. Yr oedd wedi pasio gwraig Edward a'r plant yn y llwybr cul fel yr oeddent yn croesi y cae ar eu ffordd i'r capel, ac yr oedd yn beth dieithr i beidio gweled Edward gyda hwynt, yn cario ei bientyn ieuengaf, yn edrych yn ddedwydd ei hunan. ac yn gwneuthur eraill yn ddedwydd hefyd ar ddydd gorphwys—peth dieithr oedd gweled ei sedd ef yn wag yn nhŷ gweddi!

Yr oedd Mari wedi atteb cwestiwn William—"Paham nad oedd Edward gyda hwynt,"—gydag erfyniad taer am iddo glywed ganddo ef ei hunan y rheswm, yr hyn nid allai hi ei esponio yn dda. Ond fel yr oedd yn gwylied Edward yn eistedd wrth ei fwrdd, ei wyneb wedi ei guddio a'i ddwylaw, a'r Bibl, yr hwn oedd wedi ei ddarllen yn bur fanol, yn agored o'i flaen, yr oedd rhywbeth yn ei agwedd ag oedd yn ymddangos—os nid gweddi, o'r hyn lleiaf, dwys fyfyrdod crefyddol, yr hwn ni fynnai William ymwthio iddo, ac ymhen ychydig funudau wedi'n, pan y cododd Edward ei olygon i fynu gyda geiriau difrifol, "Arwain fi, oh! arwain fi fy Nhad," a dim cyn hyny, y daeth ef yn deimladwy o bresenoldeb William, ac y cymhellodd ef i ddyfod i mewn ac eistedd gydag ef.

Yna canlynodd mynud o ddystawrwydd; yr hwn a dorwyd gan William gyda "Dywedodd Mari y buasech chwi yn dywedyd wrthyf y rheswm paham yr ydych yn eistedd gartref, a dim yn addoli gyda ni."

Attebodd Edward, "Mi a ddywedaf wrthych—yr wyf yn *dymuno* dweyd wrthych William, nad wyf yn credu fod y llyfr hwn yn dysgu mai Iesu, y Messiah, oedd yr Un Jehovah, neu ei fod Ef, yn unrhyw ystyr, yn gydradd â'r tragwyddol Dduw."

Tasgodd William – neidiodd braidd oddiar ei sedd, gan waeddi, "A chwi —y chwi ag oeddech yn meddwl cymmaint am ein prawf-destynau *(proof-texts.)*

"William," ebe Edward, "un o'r prawf-destynau hyny a wnaeth i mi yn gyntaf ammheu, neu ddrwgdybio ein bod ni wedi bod yr holl amser hyn yn gamsyniol—ein bod wedi bod yn gosod esponiad anghywir ar yr Ysgrythyr; ac yr wyf wedi chwilio drachefn bob prawf-destyn, ac yr wyf wedi darllen y

Testament Newydd yn ofalus trwyddo—ymdrechais ei ddarllen fel y buasai plentyn yn ei ddarllen, fel pe na bawn yn gwybod dim am Dduw a'i Grist Ef, ond yr hyn a ddysgai i mi. Ac yn bresenol ymddengys i mi, fod pob adnod a phob pennod yn profi ein bod ni oll yn gamsyniol; ac mai nid Duw oedd yr Iesu sanctaidd; ond mai creadur ac anwyl-fab Duw ydoedd; yr hwn a gyfodwyd i fynu, a gynhaliwyd, ac a gafodd ei nerthu gan ei Dduw i gyflawni ei waith pwysfawr—er yn ddibechod, wedi ei demptio yr un ffynud a ninau. Ydym, yr ydym yn darllen yma iddo Ef fod yn ufudd hyd angeu, ac iddo gael ei wobrwyo gan Dduw a'i dderchafu ar ei ddeheulaw, ac mai yn ei enw Ef y plygai pob glin er gogoniant Duw Dad. Gadewch i mi i bara i siarad, oblegid y mae fy nghalon yn orlawn, ac yr wyf yn awyddus i lefaru. Ymddengys i mi yn beth tra hynod yn bresenol, sut y gallasai dynion a'u Biblau yn eu dwylaw fyth gredu fod yr Iesu, yr hwn a lafarai am Dduw fel "Ei Dduw Ef a'n Duw ninau," fel "Ei Dad Ef a'n Tad ninau," yr hwn oedd yn gweddio ar Ei Dad ymhob cyfyngder a dioddefaint—yr hwn a ddiolchai i'r Tad am wrando ei weddiau—yr hwn, pan "wedi cwblhau y gwaith a roddes y Tad iddo i'w wneuthur," a orchymynodd ei yspryd i'w ddwylaw—syndod yw, meddaf, fod dynion ag sydd yn darllen hyn oll yn gallel dysgu i gredu mai'r Iesu, yr hwn a ddywedodd, "nas gallasai wneuthur dim ohono ei hun, ac nad ei eiddo ef yr athrawiaeth, ond eiddo y Tad yr hwn a'i danfonodd," oedd, neu yw y Tragwyddol a'r Hollalluog Dduw! Yr wyf wedi chwilio yr oll o'r Testament Newydd gydag awydd i gael allan gymaint ag un testyn ag sydd yn profi, neu yn dysgu yn eglur mai Iesu Grist yw y Duw Goruchaf—oblegid y mae wedi bod yn galed iawn arnaf i roddi i fynu hen ffydd, yn yr hon y'm meithrinwyd, ond nis gallwn gael allan gymaint ag un testyn ag sydd hyd y nod yn yngan y fath beth. Ac wedi'n aethum i'r Testament Newydd i'r diben i gael allan beth oedd yr Apostolion yn feddwl am Grist, a pha un oeddynt hwy, y rhai oeddynt wedi bod gydag Ef, a chwedi clywed y gwirionedd yn uniongyrchol o'i enau Ef ei hunan, yn credu mai y Tragwyddol Dduw ydoedd Ef mewn ffurf ddynol; ac yr wyf yn sier nad oeddynt hwy yn credu, na chyn ei groeshoeliad, nac ar ol ei adgyfodiad a'i ddyrchafiad mai Duw oedd. Ni ddarfu iddynt erioed—na ddo unwaith, siarad ag Ef fel Duw, ni ddarfu iddynt erioed weddio arno, a phan geisiodd gwraig Zebedëus ganddo i'w dau fab gael eistedd, y naill ar y llaw ddehau a'r llall ar y llaw aswy yn ei frenhiniaeth, dywedodd yr Iachawdwr, "Nad ei eiddo Ef ei rhoddi, ond ei Dad, yr hwn fuasai yn ei rhoddi i'r sawl y darparwyd ganddo." Nis gallasai bod Hollalluog ddywedyd hyn, oblegid nid gwir fuasai." Daeth yr Iesu i fod yn "oleuni y byd, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd; ond pell oedd Efe oddiwrth siarad am dano ei hunan fel y Goruchaf Dduw, yr oedd Efe yn siarad bob amser am ei ymddibyniad ar Dduw, am "wneuthur, nid yn ei ewyllys ei hunan, ond ewyllys Duw," ac y mae yn cael ei ddesgrifio fel un addfwyn a gostyngedig o galon. Parodd y fath iaith i'r dysgyblion cyntefig i gredu—fel ag y credasant ac y dysgasant—mai gwr profedig gan Dduw trwy nerthoedd a rhyfeddodau, ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw yn eu canol hwynt, oedd y Messiah, eu Meistr Sanctaidd; fel ag yr oedd Paul yn credu pan ysgrifenodd at y Corinthiaid, "A phan ddarostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo Ef, fel y byddo Duw oll yn oll," a siaradodd Petr a Stephan am eu Meistr croeshoeliedig fel y "prophwyd fuasai i'r Arglwyd ei godi o blith y bobl yn debyg i Moses." A phwy

fuasai yn gwybod, ac yn dysgu y gwirionedd, os nad oedd Apostolion dewisedig y Messiah yn ei wybod ac yn ei ddysgu?"

"Oh! Edward!" meddai William, "yr ydych yn anghofio dwy nattur yr Iesu—yr ydych yn anghofio ei fod yn Dduw ac yn ddyn, a'r hyn ni allai wneuthur fel dyn, y gallai fel Duw."

"Na, William, nid wyf yn anghofio, yr oeddwn yn credu hyn oll unwaith; ond ymddengys i mi yn bresenol, nad oes yr un sail i'r drychfeddwl o ddwy nattur yng Nghrist yn y Bibl, ond pan wnaeth y Cristnogion, wedi amser yr Apostolion, syrthio i'r camsynied mawr o gredu fod yr Iesu yn Dduw, yn lle myned i'r Bibl, a'r Bibl yn unig, er gweled nad yw Efe un amser yn cael ei ddesgrifio yno, ond fel Mab Sanctaidd ac ufudd Duw, y Messiah, am yr hwn yr ysgrifenodd Mo es a'r prophwydi, glynasant yn gyndyn wrth y camsynied ei fod yn Dduw, a ffurfiasant iddynt eu hunain y dychymyg o ddwy nattur yng Nghrist, ynghylch yr hyn nid oes gymaint ag un gair yn y Bibl oll. Yr wyf yn sier o hyn, William, ac yr wyf yn dweyd nad oes genym un hawl i osod ychwanegiadau, neu attodiadau yn y lle cyntaf, at yr hyn a ddysgodd yr Iesu a'i Apostolion, ac yna ymdrechu gochelyd yr anhawsder trwy ychwanegu un arall, dros yr hwn nid oes genym yr awdurdod lleiaf yn yr Ysgrythyrau. Y mae gwirionedd crefyddol yn beth rhy sanctaidd i ymyryd ag ef felly."

"Ond," meddai William wrth Edward, "dywedodd yr Iesu yn eglur, 'Myfi a'r Tad un ydym.'"

"Yn wir gwnaeth y testyn yna a'r geiriau canlynol i mi, William, feddwl ar y cyntaf p'un a oeddym ni yn iawn ai peidio yn nghredu, neu trwy gredu mai Duw ei hunan oedd Mab Duw. Yr ydych yn gwybod i'r Iesu weddio dros ei ddysgyblion, "Ar iddynt fod yn un *megys* yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minau ynot ti, fel y byddont hwythau un ynom ni." Os oedd yr Iesu yn golygu ei fod yn un Duw gyda'r Tad, oblegid iddo ddywedyd "Myfi a'r Tad un ydym," yna y mae yn rhaid i ni gredu iddo weddio am i'w ddysgyblion fod yn un Duw gyda'r Tad, oblegid dywedodd "Fel yr wyt ti y Tad ynof fi, a minau ynot ti, fel y byddont hwythau un ynom ni." Ond sier yw nad dyna beth mae'r Iesu yn ei olygu yn ei weddi. Ac nid oes genym yr un hawl i osod esponiad, neu feddwl gwahanol ar yr un geiriau i *suito* credöau dynol. Os oedd yr Iesu yn Dduw, buasai yn dysgu ei ddysgyblion i gredu hyny; ond yn lle gwneuthur felly pan gyhuddodd ei elynion Ef o wneuthur ei hunan yn Dduw (yr hyn fuasai yn sier, neu yn rhwym o gyfaddef os mai y Jehovah oedd), ond yn lle hyny dywedodd wrthynt, "Eu bod hwy at y rhai y daeth gair Duw yn cael eu galw yn dduwiau," ac nas gallasai fod "yr hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i danfonodd i'r byd, yn cablu wrth ddywedyd mai *Mab* Duw ydoedd." Ni ddarfu i'r Iesu orchymyn i ni weddio arno; ond yn y gwrthwyneb, dywedodd "Yn y dydd hwnw ni ofynwch ddim i mi," felly nid yw yn gweddio arno Ef, amgen nag anufydd-dod i'w orchymyn; dywedodd hefyd, "Y gwir addolwyr a addolant y Tad."

William, mawr y carwn pe bai dynion yn gosod o'r neilldu gredoau dynol a myned i'r Bibl yn unig i ddysgu beth ydyw gwirionedd Duw."

"Edward," ebe William, gyda thaerineb, "dyna'r testyn hwnw yn Epistol 1af Ioan, "y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân, a'r tri hyn un ydynt." A gweddiodd Stephan, y merthyr cyntaf arno."

"Yr wyf yn cofio," meddai Edward, "ac yr ydych chwithau yn rhwym o fod yn cofio hefyd, i'n gweinidog ddweud na fuasai yn pregethu oddiwrth y

testun yma yn 1 Ioan v. 7, oherwydd nad yw yn rhan o air Duw. Dywedodd wrthym y gwyddai yr Esgobion mai ychwanegiad at y Bibl ydyw. Gyda golwg ar Stephan, yr oedd yn naturiol iawn iddo pan gafodd weledigaeth wyrthiol o'r Iesu, a'i weled Ef fel Mab y dyn yn sefyll ar ddeheulaw Duw, i ddywedyd "Arglwydd Iesu derbyn fy ysbryd." Pe buasem ni yn gweled yr Iesu yn bersonol, oni fuasem yn ei annerch Ef heb gredu ei fod yn dragwyddol Jehovah? Y mae un peth arall, William, ag wyf wedi meddwl llawer am dano yn ddiweddar. Ni ddarfu i'r Iuis o'r nef alw ar ddyn erioed i dderbyn yr Iesu fel Duw. Yn ei fedydd dyma beth oedd—"Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Ni ddychmygodd y rhai a glywsant y geiriau fod un Anfeidrol Dduw yn dweud ei fod wedi cael ei foddloni yn, neu mewn Anfeidrol Dduw arall. A phan weddiodd yr Iesu "O Dad gogonedda dy enw," ac i'r Iais nefol ddyfod, "Mi a'i gogoneddais, ac a'i gogoneddaf;" ni allasai y dysgyblion gredu, ac yn wir ni chredasant mai Duw oedd yn gweddio ar Dduw, a bod un Duw yn gogoneddu Duw arall. Ac ychydig cyn ei farwolaeth yr oedd enaid yr Iesu yn drist hyd angeu, a gweinyddodd angylion iddo Ef. A allasai ei ddysgyblion gredu fod Duw mewn poen neu ing, ac i angylion weinyddu arno? Ystyriwch hyn oll, William, a meddyliwch pa mor syn ydyw meddwl fod Cristnogion yn bresenol yn siarad, ac yn meddwl am yr Iesu mor wahanol i'r modd y darfu i'r dysgyblion cyntefig siarad a meddwl am dano!"

"Nis gallaf fi oddef meddwl, Edward, am yr Iesu fel ydych chwi yn meddwl am dano. Ymddengys i mi fod naccau credu ei fod yn Dduw yn ddianrhydeddiad iddo!"

"A ydych yn credu ei fod yn beth dianrhydeddus i'r Iesu i gredu ei eiriau Ef ei hunan? A ddarfu i Martha ei ddianrhydeddu pan y dywedodd, "Eithr mi a wn hefyd yr awrhon, pa bethau bynag a ddymunech di gan Dduw, y dyry Duw i ti," Ioan xi. 22. Ni ddarfu i'r Iesu ei cheryddu am beidio credu fod y Dysgawdwr Mawr a garai hi gymaint, yn Hollalluog Dduw. Edrychodd hi i fynu atto gyda ffydd, yr hon a roddai foddlonrwydd iddo Ef, pan y dywedodd, 'yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd.' Yr hyn oll a ofynid gan y dysgyblion oedd credu mai yr Iesu oedd y Crist Mab Duw, ac yr ydym yn gwybod, nis gallwn amheu nad ffydd gadwedigol oedd eu ffydd hwy."

Edrychodd William yn dryblus, a dywedodd, "Edward, gadewch i mi feddwl. Yr wyf yn sier fod testynau i'w cael ag sydd yn profi fod yr Iesu yn Dduw. Oes, meddai, dywedodd yr Iesu, "Cyn bod Abraham yr wyf fi." A gweddiodd, "Ac yr awrhon, O Dad, gogonedda di fyfi gydâ thi dy hun, â'r gogoniant oedd i mi gydâ thi cyn bod y byd."

Mewn attebiad dywedodd Edward, "y mae y testynau yna yn mhlith ereill a ddarfu i mi eu gosod i lawr ar bapyr hyd nes y gallaswn gael testynau ereill i'w hesponio, a phan y daethum at y testun hwnw ag sydd yn dywedyd fod y dysgyblion "wedi cael eu dewis neu eu hethol yn Nghrist cyn seiliad y byd," a bod Crist *wedi* ei ogoneddu, &c., &c., gwelais mai iaith brophwydoliaethol oedd. Nis gallasai yr Anfeidrol a'r Anghyfnewidiol Dduw weddio am i'r gogoniant oedd wedi ei rodai i fynu gael ei adferu iddo. Nid yw gweddi amgen na dangosiad o wendid ac ymddibyniad; ond nid oes un gwendid yn Nuw, ac nid yw Ef yn ymddibynu ar neb. Nis gall neb ddywedyd i'r Hollalluog Jehovah weddio, ac etto fe ddywedir fod yr Iesu yn Dduw ac iddo weddio!"

"Yr wyf yn gwybod, William, fod testynau dyrys yn y Beibl, y rhai a ysgrifenwyd mewn iaith wahanol i'n iaith ni gannoedd o flynyddau yn ol; ond yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar am gymaint ag sydd yn eglur a dealladwy, yr hyn sydd yn fy ngalluogi neu yn fy nghynnorthwyo i ddeall yr hyn sydd amlwg, ac yr wyf yn meddwl llawer am yr Iesu yn ail adrodd y gorchymyn mawr cyntaf—'Yr Arglwydd ein Duw sydd un Arglwydd,' (heb un ychwanegiad), ac am y fath destynau a'r rhai'n, "Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y Dyn Crist Iesu,' &c.

"Nid yw credoau dynion ddim i mi; ond yr wyf yn awyddus am gael ffydd yr Iesu a'i apostolion yn ffydd i minau. Yr wyf yn awyddus i eistedd wrth draed fy Iachawdwr i gael fy nysgu ganddo."

"Gofynasoch i mi, William, paham nad wyf yn addoli gyda chwi yn bresenol? Y mae yn ddrwg genyf nad wyf alluog i wneuthur hyny—y mae yn ddrwg genyf i ymadael a'n gweinidog da, yr hwn sydd wedi bod mor garedig i mi; ond y mae dyledswydd uwch yn gorchymyn i mi addoli lle y gallaf 'addoli mewn ysbryd a gwirionedd.' Nid wyf yn gwybod yn iawn yn bresenol yn mha le y dichon i'r lle hyny fod; ond dydd Sul nesaf yr wyf yn bwriadu myned i gapel newydd a gysegrwyd 'i'r Un Duw y Tad.' Y mae dynion yn siarad yn ei erbyn, ond dywedwyd yn mhob man yn erbyn y Cristionogion cyntefig, a dichon fod y gorlan fychan ag sydd yn cydgyfarfod yno yn glynu wrth eiriau'r Iesu, ac yn gweddio ar Dduw yn unig."

Ac addolodd Edward yno, nid un Sabboth yn unig, ond dros y gweddill o'i oes, oblegid cafodd fod yr Ysgrythyrau, ac nid y credöau dynol yn cael eu parchu yno fel arweinydd i ffydd, a thra y siaradid bob amser am yr Iachawdwr croeshoeliedig gyda pharch gostyngedig, a chariad, yr oedd gweddi yn cael ei derchafu—yn ol ei gyfarwyddiadau Ef ei hun—at "Ei Dad Ef a'n Tad ninau, at Ei Dduw Ef a'n Duw ninau."

O'r "Christian Freeman," Mawrth, 1863. *Cyfd.* M.

UN FRICEN AR BEN Y LLALL.

Yr oedd Edwin un diwrnod yn edrych ar adeilad hardd, yr hwn oedd yn cael ei godi gogyfer a thŷ ei dad. Yr oedd yn sylwi ar y gweithwyr o ddydd i ddydd, yn cario'r bricsen a'r morter, ac wedi hyny yn eu gosod yn eu llefydd priodol.

Fe ddywedodd ei dad wrtho, "Edwin, yr ydych yn hoff iawn o edrych ar y meiswniaid yna, beth all fod yn eich meddwl fy machgen? A hoffech chwi ddysgu'r grefft yna?" "Na," meddai Edwin, gan wenu, "ond yr oeddwn yn meddwl fath beth bach yw bricsen, ac etto y mae'r tŷ mawr yna yn cael ei adeiladu wrth osod un fricsen ar ben y llall."

"Gwir iawn, fy machgen. Peidiwch byth anghofio hyny. Felly yn gywir y mae ymhob gwaith mawr. Nid yw eich holl ddysgeidiaeth ond un wers wedi ei ychwanegu at y llall. Pe gallasai dyn gerdded oddiamgylch i'r ddaear, ni fyddai ond yn gosod un droed o flaen y llall. Gwnewch eich holl fywyd i fynu o un funyd fach ar ol y llall. Diferyn wedi ei ychwanegu at ddiferyn yn gwneuthur y mor fawr i fynu. Dysgwch oddiwrth hyn i beidio dirmygu'r pethau bychain. Dysgwch hefyd i beidio digaloni gyda gorchwylion mawr. Y mae'r gorchwyl mwyaf yn dyfod yn hawdd wedi ei ranu. Ni allwch chwi ddim neidio dros ben y mynydd, ond y mae cam ar ol cam yn myned a chwi i'r ochr draw iddo. Peidiwch ofni gan hyny i ymaflyd mewn pethau mawrion. Cofiwch yn wastad nad yw'r holl adeilad mawr ddim ond un fricsen wedi ei osod ar ben y llall."—O'r *Sunday at Home.*

TAIR GORMES GWYDDYL.

Tair Gormes Gwyddyl a fu yng Nghymru a Gwyr a chymmaint ag Un Teulu au gwaredawdd y Tair, nid amgen Teulu Cyneddaf Wledig. Cyntaf y bu yng Ngwyr ym Morganwg. sef yno y daeth Ceian wyddel ai feibion ag ynnill y wlad ai goresgyn deunaw mlynedd a'r hugain. a Chyneddaf wledig ag Urien fab Cynfarch au gorfyddawd . au lladd hyd ymhen y naw o honynt a gyrru'r lleill ir Mor. yna rhodded Teyrnedd y wlad honno i Urien fab Cynfarch. ai alw Rheged, am ei rhoddi gan wirfodd Cymry'r wlad honno yn Anreg iddaw, ag o hynny y Gelwid ef Urien Rheged.

Ail Aflech Goronawc a ddug Arth Mathrin yn ormes, yna priodi Marchell ferch Tewdric Brenin y wlad honno. ag o hynny ynnill bodd y Wlad, ai chael yn gyfoeth ym mraint y briodas. ag yno'r gwehelyth yn aros fyth yn un a'r Cymry.

Trydydd, oedd Don (a Daronwy medd eraill) Brenin Llychlyn a ddaeth hyd yng Ngwerddon ag ynnill Gwlad yno, a chwedi hynny efe a ddug hyd yng Ngwynedd drigain mil o'r Gwyddyl a'r Llychlynwys, ag yno gwarseddu hyd ymhen can mlynedd a naw ar hugain. yna daeth Caswallawn lawhir ap Einion Yrth. ap Cynedda Wledig i Fon ag a ddug y wlad oiarnynt a Lladd Syrigi Wyddel yn y lle a elwir Llan y Gwyddyl ym Môn. Ag eraill o feibion Cynedda wledig au gwrthladdasant yng Ngwynedd a'r Cantref Ag ym Mhowys. ag a aethant yn dywysogion yn y Gwledydd hynny. A Mab y Don hwnnw oedd Gwydion Brenin Môn ag Arfon. ag efe a ddysgas wybodau llyfrogion gyntaf i wyddelod Môn a'r Werddon. yna yddaeth Mon a Gweiddon yn oreuglod am wybodau. a Seiniau.—(O law Iolo Morganwg.)

NAW CYFF CYFFRO BEIRDD BEDYDD YNYS PRYDAIN.

Tri phrif-feirdd Bedydd Cenedl y Cymru. Madoc ap Morfryn o Gaerllion ar wysg. a Thalesin ap Enwg Sant o Gaerllion ar wysg, A merddin Emrys o Faes Aleg yng Nglywysyg—ag ar eu hol y bu Talhaiarn Sant Tad Tangwyn, A merddin ap Madoc, Morfryn. A Meugant hèn o Gaerllion ar wysg, ag ar eu hol hwy y bu Balchnoe Bardd Teilo o Llan Daf. a Chattwg Sant, a Chynddylan Fardd. A'r Naw hynn a elwir Cyff Cyffro Beirdd Bedydd Ynys Prydain A Thaliesyn yn Ben Cadair arnynt y Naw. ag achos hynny y gelwir Taliesyn yn Daliesyn Ben Beirdd y Gorllewin, a'r Naw gorddodogion y gadair fedydd hefyd a'u gelwir ys ef nis gellir gorddod gadarn ond o deirblwydd i deirblwydd hyd ymhen y Tri-theirblwydd ys ef hynny y naw mlynedd. a chadair y Ford Gron hefyd au gelwir, ac ymraint gorddod y Ford gron y bu Gildas Brophwyd a Chattwg ddoeth o Lancarvan yn Feirdd a Llywarch Hen ap Elidir Lydanwyn, ag ystudfach Fardd, ac ystaffan Fardd Teilo—(O Drioedd Dosparth y Ford Gron.)—*MSS.*

Dedwyddwch.—'Nawr gadewch i mi i ddywedyd *secret* wrthych—*secret* gwerth ei wybod. Nid yw'r edrych yn y blaen fel yma am fwyniant ddim yn talu. Oddiar y profiad yr wyf fi wedi gael arno, byddai cystal genyf fi i hela gieir-bach-yr-haf am fywiolaeth, neu bottelo golcuni'r lleuad erbyn nosweithiau cymylog. Yr unig wir ffordd i fod yn ddedwydd yw cymmeryd y dafnau dedwyddwch, fel y mae Duw yn eu rhoddi i ni bob dydd o'n bywyd. Y mae'n rhaid i'r bachgen ddysgu bod yn ddedwydd tra mae'n ymffwdanu â'i wersi yn yr ysgol; y prentis tra byddo'n dysgu ei grefft; y marsiandwr tra mae'n gwneuthur ei ffortun.

Hanesion Sartrefol a Thramor.

Y Senedd a'r Wladwriaeth.—Mae prinder gofod ac amgylchiadau eraill yn ein gorfodi ar hyn o bryd, i grynhoi ein sylwadau o fewn cwmpas byr. Nid oes nemawr o ddim sy'n galw am ei gofnodi mewn perthynas a gweithrediadau y Senedd yn ystod y mis diweddaf. Fel y dysgwyliasid, mae yr arddangosiadau gorfoleddus a chalonog mewn cysylltiad â phriodas Tywysog Cymru—y parotoadau ar gyfer a'r siarad am hyny yn ol llaw, wedi bod yn brif destun sylw ac ymddiddan trwy'r wlad yn gyffredinol, ac nid rhyfedd. Ni chynnygiwyd etto gan y Weinyddiaeth braidd un mesur ond a welid yn angenrheidiol er cario ymlaen y llywodraeth, pa rai a dderbyniwyd bron yn ddiwrthwynebiad. Ond y mae cryn siarad ac areithio wedi bod yn y Senedd, ac yn y brif ddinas a lleoedd eraill mewn cysylltiad â sefyllfa Poland annedwydd, a'n perthynas â'n cefnderwydd anffodus yn America. Yn union ar ol gwyliau'r Pasg bydd Mr. Gladstone i ddwyn ei *Budget* i mewn; ac ar hyny y dechreua'r dadleu ynghylch trefni'r trethu am y flwyddyn ddyfodol; yr hyn, ddigon tebyg, a arweinia i frwydr neu frwydrau mwy neu lai penderfynol rhwng y pleidiau gwrthwynebol—y rhai a ewyllysiant gadw eu swyddi yn y Weinyddaeth a'r rhai a geisiant eu disodli. Y mae yn ddrwg genym adrodd fod peth terfysg wedi bod yn ddiweddar ymhlith rhan fechan o'r llaw-weithwyr yn Lancashire ag oeddent yn derbyn cymhorth yn eu caledi presenol. Ond deallwn nad yw y terfysgwyr yn achwyn gymaint am nad yw y cymhorth a dderbyniant gymaint ag y gallent ei ddysgwyl, ag am fod y drefn a'r dull o'i gyfranu wedi newid, fel ag i fod groes i'w dymuniadau. Mae pob argoel fod y terfysg ar gael ei ostegu.

Priodas Tywysog Cymru.—Bydd hir gof am y 10fed o Fawrth, 1863—dydd priodas Tywysog Cymru a'r Dywysoges Alexandra o Denmark. Nid oes un amgylchiad braidd o fewn cof y genhedlaeth bresenol ag sydd wedi galw allan gymmaint o gydymdeimlad a llawenydd yn mhlith pob gradd o'r bobl yn gyffredinol trwy'r deyrnas. Cyflawnwyd y seremoni mewn modd mawreddog dros ben yn *Saint George's Chapel*, Windsor, trwy weinyddiad Archesgob Canterbury. Llwyr ofer fyddai i ni geisio rhoddi desgrifiad. Yr oedd y Frenhines yn bresenol, ond, ar ei phen ei hun, yn yr Ystafell Frenhinol. Yr oedd ei brawd-yn-nghyfraith, Dug Saxe Coburg, yn cydgerdded a'i Mawrhydi ar ei mynediad i'r Capel. Dywedir fod ei debygolrwydd i'w Frawd, y diweddaf Dywysog Cydweddol, yn reillduol dariawiadol. Yr oedd efe, a pherthynasau eraill i'r Priodfab a'r Briodasferch Frenhinol, yn cymeryd rhan yn y seremoni. Yn gynnar yn y prydnawn cymmerodd Tywysog a Thywysoges Cymru eu hymadawiad â Chastell Windsor, a chyrhaeddasant Osborne cyn nos. Yr oedd hefyd yn ddiwrnod mawr yn Llundain y dydd Sadwrn o'r blaen, y 7fed, pan y tiriodd y Dywysoges a theulu brenhinol Denmark yn Gravesend. Cymmerodd gorymdaith arbenig le trwy ddinas Llundain, ac wrth gwrs yr oedd Tywysog Cymru wedi gofalu i fod yn bresenol; a diau ei fod yn iechyd a llawenydd i'w galon i ganfod arddangosiad mor unfrydol a chalonog ag a wnaed gan y torfeydd aneirif, mewn llawen roesawiad i'r Dywysoges, ac anrhydedd i'r amgylchiad. Wrth gwrs natur gall ef ddysgwyl cael esgyn gorsedd Prydain, fel Edward VII., ac y mae pob lle i hyderu y bydd iddo ddilyn addysgiadau ac esiampl ei Dad, ac y bydd iddo ddwyn y deyrnwialen mewn modd anrhydeddus iddo ei hun, a gwir lesiol i'r wladwriaeth ac i'r byd. Braidd mae eisiau cofnodi fod dydd y briodas yn cael ei gadw yn ŵyl arbenig yn y brif ddinas a'r dinasoedd taleithiol, a'r trefi oll trwy y deyrnas. Gydag eithriadau dichon y gellir cymmeryd yr hanes a dderbyniwyd o Aberdâr yn enghraifft deg o'r arddangosiadau a gymmerasant le yma a thraw mewn anrhydedd i'r amgylchiad. Diau y bydd ein darllenwyr yn gyffredin i gyduno â ni i ddymuno *pob llawenydd i Dywysog a Thywysoges Cymru.*

Y Cyfandir.—Yn Ffraingc ac Italy a gwledydd eraill o'r Cyfandir, yn gystal ag yn Lloegr, dangosir cydymdeimlad dwys a phur gyffredinol o blaid y Pwyliaid druain. Mae areithio bywiog wedi bod i'r un perwyl yn eu gwahanol Senedd-

dai, ond terfynai gyda gadael y peth yn nwylaw gweinyddwyr y llywodraeth, pa rai, modd bynag, a broffesant awydd a pharodrwydd i wneud yr oll a allant ym mhlaid Poland trwy lŷsgennadiaeth *(diplomacy)*. Maes y law deuir i wybod pa beth mae llywodraethau Ffrainge, Lloegr, &c., wedi ei wneud yn y ffordd honno, a chyda pha obaith am lwyddiant.

POLAND.—Y mae y gwrthryfelwyr yn parhau i fyned yn eu blaen oddieithr yn y rhanau hyny o'r wlad lle mae y byddinoedd Rwssiaidd wedi crynhoi. Ond y mae yn rhy amlwg pa beth fydd y terfyniad, os, yn wir, ni roddir gwrandawiad i lais prif lywodraethau Ewrop. Darfu milwyr Rwssia lwyddo i gyfyngu ar Langiewics a'i wŷr a'u hamgylchu, fel ag i'w hattal rhag cilio, fel arferent, i'r mynyddau a'r coedwigoedd; fel nad oedd dim i'w wneud ond i ymladd eu ffordd trwy restri'r gelynion, a gwasgaru oreu gallent ac i Langiewics a'i gyfeillion i ddiange dros y cyffiniau i diriogaeth Awstria, lle maent mewn diogelfa ond dan wyliadwriaeth. Ond yn ngwyneb pob anhawsderau, ac yn gobeithio megys yn erbyn gobaith, y mae y Pwyliaid, ymddengys, yn benderfynol o un fryd i gario y gwrthryfel yn y blaen hyd nes gorfodir hwynt yn gwbl. Mae llawer gweddi daer am iddynt allu sefyll eu tir hyd nes gwelir rhyw ddrws o waredigaeth yn agor iddynt.

AMERICA.—Yn ddiweddar mae gweithrediadau'r rhyfel o'r ddau tu wedi bod gan fwyaf ar lennydd y Mississippi ac ar yr afon Yazoo. Daeth y newydd fod yr Undebwyr wedi bod yn anarferol o lwyddianus ar y Yazoo; ond hyd yn hyn nid yw'r newydd wedi cael cadarnhad. Yn wir mae yr hyspysiadau a gafwyd yn ddiweddar yn groes i'w gilydd; ac mewn perthynas i Vicksburg yn enwedig. Ond y mae'r newydd wedi ei gadarnhau i fod llynges yr Undebwyr wedi methu yn lan i gymmeryd Port Hudson, ac wedi cael ei gwaethu yn fawr yn yr ymdrech. Dysgwylir clywed am ryw weithrediadau penderfynol, un ffordd neu'r llall, mewn cysylltiad â Vicksburg a Charleston gyda'r llong nesaf. Y mae achwyniadau a chryn lawer o fygwth wedi bod yn ddiweddar yn New York o achos gweithrediadau dinystriol yr Alabaman, a llongau rhyfel eraill, y rhai a adeiladwyd yn Lloegr.

GWYL DE YR HEN-DŶ-CWRDD, ABERDAR.

MAWRTH y 10fed, 1863. Cynnaliwyd heddyw gyfarfod blynyddol a gŵyl dê Ysgol Sul y Capel uchod. Yr oeddid gwedi penodi cynnal yr wyl ar y 9fed cyfisol, ond oherwydd Priodas ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, gohiriwyd hi hyd y 10fed fel y gallasai ein hysgol gael y pleser o gyduno a holl ysgolion eraill y plwyf i orymdeithio trwy brif heolydd y dref ar ddydd priodas ein Tywysog. Ffurfiwyd pwyllgor o'r gwahanol ysgolion er trefnu yr orymdaith, ac awd at Mr. Fothergill i ofyn a welai yn dda inni gael rhoddi tro trwy ei barc, a chaniatäodd y boneddwr ein cais gyda'r parodrwydd a'r serchawgrwydd mwyaf. Am 12 o'r gloch, yr oedd yr amrywiol ysgolion yn ymbarotoi yn eu gwahanol gapeli, ac am haner awr gwedi deuddeg dechreuasant a throi allan o un i un nes ffurfio yr orymdaith, a'r olygfa fwyaf fawreddog a gogoneddus a welwyd yn Aberdar erioed o'r blaen; dros *un fil ar ddeg* o Ysg lheigion Sabbothol a'u baneri ysplenydd yn chwifio yn yr awŷr, yn wir, oedd yn olygfa fawreddog a llwyr gysurlawn i feddwl pob penteulu Cristnogol. Gallasem gasglu yn narturiol wrth wynebpryd pawb presennol yn yr orymdaith, yn hen ac ieuange, eu bod oll yn mwynhau hyfrydwch o'r mwyaf, a phaham lai, wrth weled y fath lu o ddynion mor unol yn eu dymuniadau—pob un yn ceisio gwneud rhywbeth tuag at wneud ei gymmrawd yn fwy cysurus Awd (fel yr awgrymwyd yn barod), yn un orymdaith tua'r *Park*, ac wedi rhoddi tro trwy y rhodfeydd harddwych, safwyd yn wasgaredig o flaen Abernant House, i'r dyben o ganu Anthem Mr. Brinley Richards, "*God bless the Prince of Wales*," yr holl gorau yn uno a'u gilydd yn cael eu blaenori gan y cantor medrus, y Cymro diledryw—Mr. D. Rosser, Aberdar.

Rhysydd y gerdd yw Rhosser,—a'i seiniau,
Yn swynol felusder;
Tônau nefolaidd tyner
Ffrydia o'i bib yn ffrwd ber.

Anrhegwyd Mrs. Fothergill (trwy law y Ficer), gan yr ysgolion, â Bibl hardd, fel cydnabyddiaeth barchus o garedigrwydd Mr. Fothergill at yr Ysgolion Sabbothol. Cydnabyddodd Mr. a Mrs. Fothergill yr anrheg yn barchus, ac wedi annerchiadau pwrpasol iawn gan y Parchedigion Thomas Price a David Price, ail-ffurfiwyd yn un orymdaith a dychwelodd pob ysgol i'w chartref ei hun, i dreulio y prydnawn mewn canu ac adrodd, &c.

Cafwyd y cyfarfod gyda'r mwyaf dymunol yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Gwedi gwledda ar y tê a'r bara brith, neillduwyd y Parch. Rees

Jenkin Jones i'r gadair, agorodd y cadeirydd y cyfarfod mewn ychydig eiriau yn fyr a phwrpasol i'r eithaf, ac aethpwyd trwy weithrediadau y prydnawn fel y canlyn :

Annerchiadau gan y Beirdd; *Symphony*, "*Benedictus*" gan Mr. Griffith Jones (Caradog), Mr. Edward Williams a Mr. Thomas Howell—y ddau flaenaf yn chwareu bob o grwth, a'r olaf y *bass viol*, afreidiol dweyd fod chwarenyddiaeth y cyfeillion yn gampus; mae gnw ein Caradog penigamp yn *gwarantee* nad oedd ddim stwff gwael yn cael ei roddi i'r cyfarfod. "Cynnadledd ar y Maib Afradlon," gan Mr. David Rees a'i gyfeillion; "'Nol bod yn hir o dir fy ngwlad," gan Miss Ann Jenkins; Bedd-argraph Davis o Gastell Howel i'r Dr. Priestley, (yn Gymraeg a Saesneg), gan Miss Gwenllian Llewelyn; Penill Cymraeg gan Miss Jane Llewelyn; Pennill o Richard Dlawd gan Miss Margaret Jones; "*The Cross*," gan Thomas John Jones, ieu.; '*The Creator's Works*," gan Hugh William Thomas; 'Y swllt diweddaf," gan David Rees, Harriet street; "Ewyllys Adda," gan Miss Catherine Watkins; canu "*God Save the Queen*," gan Mr. David Jenkins; "*The Beetle*," gan Miss Ann Griffiths; Pennillion Saesneg gan Miss Mary Jane Charles; cân '*Gentle Annie*" gan T. J. Jones, ieu, a'r gynnulleidfa yn uno yn y gydgan; "Hen Gorlan fy Nhadau," gan Mr. David Davies; Bedd-argraff gan David Lewis; '*God bless the Prince of Wales*," gan Richard Jenkins; "*The Dormouse*," gan William Thomas; "Tro yn ol," gan David Arnold; "Ffair y Pentref," gan Miss Ann Jenkins a Miss Jane Jenkins; Solo, Penrhaw a'i Amrywiadau ar y crwth gan Caradog; cân ar Gariad (o'i gyfansoddiad ei hun) gan Isaac Ab Gwilym; "Y Succan," gan Thomas Rees; Cân gan William Davies, (5 mlwydd oed); "Adferiad Heddwch rhwng Crist'nogion," gan Mrs C. Evans; "*What is Time?*" gan Miss Ellen Jones; "*The Atheist and the Acorn*," gan Elias Gething; "Y Trên," gan Noah Lewis Williams; Cân gan Joan Howell, (5 mlwydd oed); "Y Tê a'r Myglys," gan y Misses Ann a Jane Jenkins a'u cyfeillion; "Brawdgarwch," gan Dewi Iago; Duet gan Mr. Thomas Thomas a'i wraig; "Y Dirwestwr a'r Meddwyn," gan Mr. William Beynon; "Gair Ymadawol," gan Miss Esther Griffiths; Duet gan Mrs. Mary Thomas a Thomas Howell; Pennillion Saesneg gan Miss Elizabeth Llewelyn; Cân, "*The Beautiful Star*," gan Richard Watkin Evans, Heb geisio gwenieithio i'r un o'r personau uchod gellir yn ddibetrusder ddweyd eu bod un ac oll gwedi adrodd a chanu yn rhagorol dda. Yn gymmysgedig a'r darnau rhagenwol canwyd yn wir swynol gan gôr yr Hen Dŷ Cwrdd o dan arweiniad Mr. Thomas Howell, amrywiol ddarnau o gerddoriaeth, pa rhai ydynt yn rhy faith i'w henwi yn un ac un yma: hefyd rhaid inni beidio esgeuluso sylwi ar Flodau ein Hysgol, sef y Gobaith Lu (*Band of Hope*) o dan lywyddiaeth Mr. David Davies, yr hwn sydd yn rhyglyddu clod mawr am ei ymdrech diflino gyda ein plant bychain: y Gobaith Lu ydyw un o brif bleri ein Hysgol Sul, ac yr wyf yn meddwl na chyfeiliornaf wrth ddweyd mai yr Ysgol Sul yw mammaeth ein cynnulleidfaoedd:

Mwyn gawell i'n mân gywion,—i'w codi
'N wŷr cedyrn a doethion,—
Yw'r rhagorol ysgol hon,—a'i golau
'N llywio'u doniau i'w gwneud yn well dynion.

Mae yn hyfrydwch calon gennym i ddweyd ein bod gwedi cael cyfarfod gyda'r mwyaf difyrgar ac adlonnol ac a gawsom erioed—pawb yn ymddangos eu bod yn cael mwyniant a dedwyddwch mawr trwy yr adroddiadau doniol a'r canu soniarus a gawsom. Y mae yn flin gennym na bai ein brodyr Undodaidd yn fwy cyffredinol yn ymdrechu fwy gyda'r Ysgol Sul—credwn yn gydwybodol fod ein difaterwch mawr o'r Ysgol Sul yn un o'r achosion pennaf o wendid ein cynnulleidfaoedd, ac fel y mae achos gofidio yn *ddirywiad* o'r achos Undodaidd mewn llawer man.

Wrth ddiweddu ein cyfarfod cysurus cynnygiwyd gan Eiddil Cynon ac eiliwyd gan Mr. Edmund D. Howell, fod diolchgarch y cyfarfod i gael ei roddi i'r Boneddigesau fuont yn gweinyddu arnom. Etto ar gynnygiad Mr. Thomas T. Rees a Mr. William Morgan, diolchwyd i'r sawl a wnaethent y deisen. Ar gynnygiad Mr. Jenkin Williams a Cynonwyson, diolchwyd yn wresog i'r cantorion a'r ymwelwyr; ac yna ar gynnygiad y Carw Coch a Mr. William Morgan, diolchwyd yn y modd parchusaf idd ein teilwng gadeirydd am ei ymddygiad yn y gadair.

Er mwyn annogaeth i blant yr ysgol, yr oedd pawb dan 15 oed yn cael tocynau *rhad* i'r *té party*, a rhanwyd fel hyn rhyw 120 o gardiau yn rhad i aelodau yr Ysgol Sul yr Hen Dŷ Cwrdd; pris y cardiau i'r sawl oeddent dros yr oed a nodwyd, ac hefyd i ddyeithriaid ydoedd chwe' cheiniog; gwerthwyd tua chwech cant o gardiau, a bydd yr elw i fyned at dalu am yr Oriawr harddwych sydd yn ein Capel newydd, ac at brynu llyfrau i'r Ysgol Sul.

ENGLYNION.

Ha! frodyr, y mae'n hyfrydwch—immi,
Wel'd yma'n prydferthwch,
Mewn gwir gariad fflamiad fflwch,
A hedd goron hawddgarwch.

Y gwir a'i nawdd cywir ei nod—fyddo
Yn foddion pob tafod,
Heno a doniau hynod,
Er lles clau yn arllwys clod.

Llon noddi ein llenyddiaeth—a fyddom,
Gwir foddion addysgiaeth ;
Er lles mawr gwna arllwys maeth
Yn iawn elw dynoliaeth.

Llenorion, beirddion y byd,—a garant
Iawn goron o wynfyd :
Rhag blinder a digter, dyd— yr wyl hon
Wir dda dueddion o fawr ddedwyddyd.

Trecynon. Dewi Iago.

I'r Cantorion.

Cantorion cu naturiol—hynawsaidd,
Canasant yn wrol ;
O wir les heb air o lol,
Y seinient yn gysonol.

I Mr. Griffith Jones, (Caradog).

Cawr ydyw ein CARADOG,
O allu llwyr, be well llog ?

I'r Boneddigesau, y Tê, &c.

Eisior Foneddigesau—rai awchus,
Rhai uchel rinweddau,
Ydoedd eu hymdrechiadau,
Llawn o hwyl i'n llawenhau.

Tê, teisen, fraithwen, frithog,—hoff wiwbur
A phob peth yn fywiog,
Ni luniwyd mwy calonog—
(Tyna nghred pe tawn yn nghrog).
Eiddil Cynon.

I Mr. Griffith Jones a'i ddau Gyfaill.

Gryffydd, à'i fwa, craffwch—roes inni,
Rwy swynol ddiddanwch ;
A lorwerth rhodd ddifyrwch,
A Tom yn gam* yn fflam fflwch.

Tynent, yn groes i'r tànau—a hwylient,
Eu haelwych ganiadau ;
Mae'r dynion gwiwlon yn gwau
Y dinam nefawl dônau.
Carw Coch.

I Caradog.

Wrth rhwbio enwc ei grwth crwcca—Cradog,
Yn fywiog a'i fwa,
Yn wir lwys i'n arllwysa,
Gerddoriaeth yn doraeth da.

Trecynon. CYNONWYSON.

*Yr oedd ef yn ei eistedd.

Marwolaethau.

D. WILLIAMS, YSW., (ALAW GOCH), YNYSCYNON.

Er a ysgrifenir, gofnodir ar bapur, marmor, &c., a phob rhyw ddefnydd mwy neu lai hir ei barhad, syrthiodd i ran yr ysgrifenydd y gorchwyl galarus o anfon ychydig linellau i'r YMOFYNYDD er cofnodi marwolaeth y Cymro a'r boneddwr gwir deilwng hwnw, "Alaw Goch," bardd Ynyscynon, ac nid oes arnom bryder i ddywedyd, un o'r gwladgarwyr goreu a droediodd Cymru wèn erioed. Do, collwyd Cymro difloesgni, llenor glew, cymydog anwyl, meistr teimladwy, a chyfaill i'r carn ; a bydd dydd ei farwolaeth yn gyfnod o alarwisg wylofus oesawl dros wyneb hên wlad ei enedigaeth. Dichon y cawn gyfle etto i fanylu ar hanes ei fywyd mewn amser dyfodol. Bu amgylchiadau ei farwolaeth rhywbeth fel hyn :—Boreu Sadwrn, 28ain o Chwefror, ymadawodd a'i deulu serchog mewn llawn bywiogrwydd a'i chwedlau difyr fel arferol, i fyned ar neges i Benybont-ar-Ogwr ; ond och ! pan yn dychwelyd i gyfarfod y gerbydres am chwech yn yr hwyr, syrthiodd yn ddisymwyth ar y palment yn ymyl yr heol, ac anadlodd y chwythiad olaf ar drawiad. Nid oedd bellach ond cludo ei gorff i Gastell Misgin, lle yr ymadawodd yn y boreu.

Mae'n anrhydedd cydnabod fod yr anwyl Alaw yn hanedig o'r radd weithgar, etto yn sefyll yn uchel o ran cymeradwyaeth yn mhlith pob graddau o'i gymydogion. Ei dad oedd saer gwledig wrth ei alwad, yr hwn pan yn wr ieuanc a gafodd ei draws gymmeryd yn filwr morawl *(marine)*, ac a fu yn ngwasanaeth Sior y Trydydd am ryw saith mlynedd, Yn ystod yr amser gorfu iddo gymeryd rhan mewn rhyw bump i chwech o frwydrau dan yr Arglwydd Nelson. Yr oedd ar fwrdd y llong nesaf ato yn mrwydr *Trafalgar*, ac yn gweled y gwron yn cwympo. Ganwyd Alaw Goch Gorphenaf 12, 1809, mewn amaethdy bychan o'r enw Llwynydrain, ar fynydd y Fforest Newydd, plwyf Ystradowain, ger y Bontfaen, Morganwg, ac ŵyr ydoedd i'r enwog Iolo Fardd Glas. Yn y flwyddyn 1821 symudodd ef a'i dad i Aberdar, lle y buont am beth amser yn dilyn y gelfyddyd o lifio coed. Ond ni fynnai i feddwl hedegog Alaw iddo fod yn hir

wrth y gorchwyl hwnw. Cymmerodd yn ei ben i ymweled â'r byd tanddaearol er mwyn yn ddiau i ddeall rhywfaint am gynwysiad ei grombil.

Yn y cyflwr yma yr un flwyddyn dechreuodd ystwytho ei feddwl at Farddoniaeth Gymreig, a chafodd yr ysgrifenydd y difyrwch o dreulio rhai oriau yn dra difyr yn ei gyfeillach, ac weithiau yn cydmarn ambell i linell a alwent yn farddoniaeth, ond yr oedd Alaw yn curo ei wala. Ei ramadeg ef oedd gwaith Robert Davies, Nantglyn, a Shôn Rhydderch; a daeth yn y diwedd i drafod y cynghaneddion gyda rhwyddineb. Bu felly am rai blynyddau cyn dechreu hwylio ei gamrau i fyd yr anturiaethau masnachol; ond o'r diwedd hwyliodd i fôr mawr y trysorau. Aeth ar gynnydd mewn llwyddiant a chyfoeth, fel y belen eira, megys y ceir ei hanes ar agos holl bapurau y dywysogaeth. Pan y byddai ynghanol ei ofalon yr oedd yr *awen* yn berwi o hyd yn ei ben, er lloni pob cyfeillach a'i cyfarfyddai. Ei galon haelfrydig, a'i law estynedig oedd yn wastad yn barod, ac i'w weithwyr yn wastad yr oedd yn dŵr o ddiogelfa. Gallwn ei alw yn dad Eisteddfodydd y dehau, ac efe oedd un o'r llafurwyr mwyaf diflino o blaid yr Eisteddfod Genedlaethol, a noddfa ydoedd i bob sefydliad dyngarol. Dyna fe, ond ni amlygwyd etto mo'r hanner o'i ddaioni. Mae cynulleidfa'r Hen-dŷ-cwrdd fel eraill yn teimlo i'r byw o'i golli, ond y mae ei addewid at y draul o ail-adeiladu yr Hen Dŷ, er ei golli, yn gorphwys yr un mor ddiogel yn ein meddyliau—dim gofal am ein siomi.

Ar foreu y 6fed dydd o fis Mawrth symudwyd ei weddillion o Gastell Misgin i'w rhoddi i orwedd yn ei artref newydd yn y *Cemetery*, ger Trecynon, Aberdar, yr hon sydd o fewn ychydig gannoedd o latheni i'r fan y cafodd ei urddo yn fardd wrth Fraint a Defod Beirdd. Pan cyrhaeddodd yr elorgerbyd y *Boot Inn*, yr oedd yn ei aros rhyw bump i chwe' mil o'i geraint a'i gyfeillion dragrith, wedi trefnu eu hunain yn orymdaith o'i flaen. Y beirdd a'r llenorion yn y blaen, a gweinidogion yr efengyl a boneddigion eraill yn canlyn, a'r corff yn cael ei gario gan ei weithwyr hiraethlon. Gadawodd weddw dyner a charuaidd, ynghyd â thri o amddifaid i ddwys alaru eu colled.

Hiraeth, Ow! hiraeth oherwydd,—colli
Gwr call iawn a chelfydd,
Ein "Alaw Goch" dieilydd,
Pob calon, pob bron sy'n brydd.

Am Alaw Goch bydd ochain,—a dyfr hallt
N' diferu dros Frydain;
E fydd mwy am ei fedd main,
Oer lefau hir wylofain.

CARW COCH.

Mawrth yr 2, yn 78, Mr. Daniel Evans, Lowtre, Llanwnen. Dyn oedd ag yr oedd yn anhawdd cael ei fath fel Cristion o ran ei syniadau crefyddol a'i ymddygiad da. Fel priod, tra bu ef felly, ffyddlon a charedig oedd. Fel tad, tirion a gofalus neillduol oedd tuag at ac am ei blant, a gwelant ei eisiau yn fawr. Am dano fel Cristion y dywedaf heb y petrusder lleiaf, "Bydded fy niwedd i fel yr eiddo yntau." Bu yn broffeswr crefydd oddiar pan yr oedd yn 18 oed. Derbyniwyd ef yn aelod yn Llwynrhyd-owen, gan y diweddar Barch. Griffith Griffiths, Llechryd, ac felly bu yn aelod eglwysig yno a Galltyblacca 60 mlynedd, ac yn ddiacon yn yr olaf am flynyddau lawer. Claddwyd ef yn yr un beddrod a'i wraig, yn Alltyblacca, ac yn ymyl ei fab (y diweddar Barch. Thomas Evans, Kingswood) a'i feibion. Pregethwyd yn ei angladd gan y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, &c., a David Evans, ei weinidog; yn y tŷ gan y blaenaf oddiwrth y gair "Gorphenwyd," Ioan xix. 30, ac yn y capel gan yr olaf oddiwrth air dewisol gan y trengedig, sef Col. ii. 6. Cyfansoddodd emyn fer i'w chanu yn ei angladd.

Yn ddiweddar Dafydd Stephen, Caehir, ger Cribin. Oedd gyda'r henaf yn ei blwyf, sef Ystrad-aeron. Yr oedd ar fin 100. Pregethodd yr ysgrifenydd yn ei angladd oddiwrth Preg. vi. 6.

T. GIMEL.

Mawrth y 5ed, William, mab James Thomas, Gwarcoedisaf, Llandyssil, a chladdwyd ef y Sadwrn canlynol yn Pantydefaid. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. T. Thomas i dorf luosog o wrandawyr astud a difrifol oddiwrth y geiriau, "Onid oes amser terfynedig i ddyn ar y ddaear? onid yw ei ddyddiau ef megis dyddiau gwas cyflog?" Job vii. 1.

Mawrth y 10fed, Eleanor, gweddw y diweddar Evan Davies, Taigwynion, Llanwnen. Claddwyd hi y dydd lau canlynol yn Capelygroes. Pregethodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur oddiwrth 2 Cor. v. 10. Bydded Duw yn Dad i'r amddifaid sydd yn galaru ar ei hol.

Barddoniaeth.

MARWOLAETH ALAW GOCH.

Wylo geir am Alaw gu.—a d'gron
Yw'r dagrau'n defnynu;
Gwan obaith yw gwynebu
Yma'n dost a'r wlad mewn du.

Yn nydd ei bri ceir nawdd ei bron,—yn huno
Yn annedd y meirwon;
Wylo mwy o Fynwy i Fon
Trwy 'u gilydd wna'r trigolion.

Cur brathu câr y Brython,—do gwânwyd
Gwynedd a De weithion;
Galarus, bregus eu bron,
Oll yn awr yw'r llenorion.

Calon-fawr, ac hael iawn fu,—o wir les
Trwy ei law i Gymru;
Hael er lles i lawer llu
Alaw Goch, hael i'w gwycku.

Awelon cynon, cwynant—a Misgin
Y moesgar ymdônant:
Pob calon, pob tôn, pob tant,
Am Alaw yr ymwylant.

Grudd wleb oedd ar ol Eben.*—i Alaw:
Wylodd am y trylen;
Am ddwyn y ddau gorau 'n gwên
Ymwywo y mae awen.

Daeth tlodion, gweinion i gwynaw—ei weddw
A'i blant sydd yn wylaw;
A minau 'n brudd mewn unbraw
O! ymwylaf am Alaw.

G. Brycheinog.

ENGLYNION AR FARWOLAETH ALAW GOCH.

Gwŷswyd i'r âr wrth gais Duw'r hedd,—i fwrw,
Ei farwol drwm lesgedd,
Alaw anwyl i hunedd
Ola'r byd, i lawr y bedd.

Cawr rhinwedd—cywir enaid,—a brenin
Bryniau'r Awen gannaid;
O fryd roi i'w frawd ei raid—
Ag anian lleshau gweiniaid.

Ow! môr o wae oedd marw hwn,—i Walia,
Hir alaeth a deimlwn;
Galar ar alar welwn,—
Eitha'n baich—hiraeth yn bwn.

Er gwelyddu'r goleuddoeth—fwyn Alaw,
Fu'n heulwen i'r annoeth;
Yr olaf ddydd, fardd hyddoeth,
O'i wely cwyd fel haul coeth.

Trecynon. Cynonwyson.

* Eben Fardd.

Y GWANWYN.

Mae ein daeren dan reolaeth,
Ar olwynion doeth Rhagluniaeth,
Aeth y Gauaf o'n tiriogaeth,
I'aeth y Gwanwyn hardd.
Unwaith eto ar ymwe.iad,
A gororau'r hên Gymreigwlad,
Gyda gwenau llawn o gariad,
Daear drwyddi chwardd—
Gwisga'i gwerdd wisg newydd,
Hardd fydd lliwiau'r dolydd,
Egin glas ymsaethant ma's,
Gorchuddiant faes a broydd:
Mae holl anian yn adloni,
Bryniau welir fel yn llamu,
Coed yn gwisgo eu gwyrddlesni,
Blodau geir mewn gardd
Rhwng y creigiau heirdd crogedig,
Sia'r awel fwyn ei miwsig,
Peraidd byncia corau'r goedwig,
Felus gynes gân:
Pob llysieuyn bach a'r bl dau,
Wna gusanu gwlith y borau,
Wrth roesawi twym belydrau
'R Dwyrain, haulwen lân;
Prancia'r ŵyn ar fronydd,
Nofia'r pysg afonydd,
Bugail ddaw i'r bryniau draw,
I roesaw'r tymor newydd;
Ceir y gôg ar lwyn yn canu,
Pob creadur byw 'n cyhoeddi—
Daeth y Gwanwyn i'n sirioli,
Mae fy mron ar dân.

Trecynon. Dewi Iago.

ENGLYNION DAFYDD AP GWILYM.

Tad Dafydd ap Gwilym yn ei ffwdan ar gynhauaf gwlybrog, a barasai iddo gneifio eithin, i grasu haidd, ac yn yr un amser erchi rhes o orchwylion ereill anghysson i'w anwydau, yntau a ddywaredodd ei Dad fel hyn:—

Brysia, digona, dwg eithin—i mewn
Mae'n myned yn dryghin!
Gyr y defaid o'r egin,
Hoi! hoi! tro y lloi o'r llin!

Ei atteb yntau oedd—

Yr ydym ni'n dau yn diwynaw—'r ŷd
A'r odyn heb dwymnaw;
Na ad dryghin gael ciniaw;
Na chras haidd glas ar y glaw.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.